




" Gyda Gwen, wy'n ddi-bennyd,
Gwna hon fi'n galon i gyd."

Tud. 52.



Gwaith
Dafydd
AB Gwilym.

Manuwhellyn = Ab Owen

W. Hartley

ARGRAFFWYD I AB OWEN GAN R. E. JONES A'I FRODYR,
CONWY.

Rhagymadrodd.



FMRYW flynyddoedd yn ol, yn agos iawn i ugain, addewais roddi casgliad o waith Dafydd ab Gwilym i'r werin. Gohiriais o dro i dro, gan ddisgwyl egwyl i chwilio am y llawysgrifau hynaf. Yr wyf wedi hen anobeithio medru gwneyd hynny, ac y mae'r gwaith yn fwy o lawer nag y tybiais yn fy anwybodaeth ei fod. Nis gwn ond am un sy'n fyw a fedd y cyfleusderau a'r medr i roddi i ni gywyddau Dafydd ab Gwilym mor agos ag y gellir i'r fel y canodd y bardd hwy. Ers blynyddau y mae Dr. J. Gwenogfryn Evans yn casglu cywyddau Dafydd yn ol y llawysgrifau hynaf ar gael o bob un ohonynt. Pan ymddengys y casgliad hwn, ceir gwaith Dafydd ab Gwilym yn gyflawn am y tro cyntaf, ac mewn dull y gall hanesydd iaith yn ogystal a hanesydd llenyddiaeth ymddiried ynddo.

Y mae fy ngwaith i yn fwy distadl, er nad yn llai gwasanaethgar. Fy ngwaith i yw rhoddi casgliad bychan o gywyddau Dafydd ab Gwilym mewn dull y deallo y darllenydd eu rhediad, ac y delo i gymundeb â chariad athrylithgar at geinder tlysni. Codais hwy o wahanol ysgriflyfrau lle y ceir cywydd neu ddau i Dafydd yn dechreu casgliad o geinion wnaethai rhyw fardd iddo ei hun. Codwyd llawer, os nad y rhan fwyaf, o wahanol ysgriflyfrau Lewis Morris, ac o argraffiad Owen Jones a William Owen yn 1789. Er

cymaint fu gwasanaeth y gwŷr ardderchog hyn, dewisais gopiau ereill hŷn, lle y gallwn, yn hytrach na'u copiau hwy. Trwsiasant ormod; i'r efrydydd, eu copiau hwy yw y mwyaf diwerth.

Ni raid i mi ddweyd nad yw yr oll o waith Dafydd ab Gwilym yn y gyfrol hon. Yr wyf yn amheus ynghylch awduriaeth amryw gywyddau briodolir i Ddafydd yn argraffiad 1789. Mewn un llawysgrif priodolir i Gruffydd Llwyd ab D ab Einion y cywydd i ddiolch i wŷr Morgannwg am dalu dirwy'r Bwa Bach; mewn un arall priodolir i Robin Ddu y

“Saith gywydd i Forfudd fain,
Seth hoew-gorff, a saith ugain.”

Gadewais aml gwpled, nad oeddwn yn sicr ohonynt, allan; dewisais y dull byrraf fel rheol; ni roddais ond darn o ambell gywydd. Ni newidiais ddim ond “y” ac “yn” yn “ei” ac “ein,” a “glaw” yn “glaw.” O'm hanfodd y gwnawn hynny; ond os creithiau ar yr iaith yw y rhai hyn, danghosant ol dwylaw cymhwynasgar William Salesbury a Dr. W. Owen Pughe. Cyfleais y cywyddau i ddangos hanes Dafydd,—yr ymhyfrydu yn nhlysi natur a merch, ymgartrefu gydag Ifor Hael, caru Morfudd, y briodas yn y llwyn, colli ac ail ennill a cholli Morfudd, canu i Gruffydd Grug, prudd-der cysgodau'r hwyr.

Os teimla ambell un cyfarwydd mai bwngler ydwyf, cofied fy esgus,—y mae pobl ieuainc Cymru yn dechreu yr ugeinfed ganrif heb argraffiad o waith eu prif fardd yn eu cyrraedd.

Yn hanner olaf y bymthegfed ganrif, rhwng Llywelyn ac Owen Glyndŵr, y bu Dafydd ab Gwilym byw. Yr oedd bywyd Lloegr a'i masnach a'i moethau yn llawn dylanwad ar Gymru. Yr oedd yr urddau

cardod,—y brawd du a'r brawd llwyd,—yn dirywio rhagor bured ac anwyled fuasent gynt. Yr oedd adfywiad dysg, fel awel gwanwyn, yn y byd. Yr oedd meibion llafur yn dod yn rhydd o rwymau oesol. Yr oedd bryd pob dyn ar fywyd y byd yr oedd yn byw ynddo. Trodd addoli Mair yn addoli merch dlos, trodd nerth crefyddolder yn ymhyfrydiad yn nhlysi anian; y goedwig yw teml Dafydd ab Gwilym, a'r ehedydd ei offeiriad.

O gyfeiriadau ato mewn beirdd eraill, y mae llen-orion wedi dadblygu hanes rhamantus iddo,—ei eni yn yr eira, ei fedyddio ar arch Ardudfyl ei fam, ei grwydr oddiwrth lysfam at noddwr tan ymddisgleiriodd ei awen yn amlwg i bawb. Gwelir ef yn ei gywyddau,—yn wr teimladwy yn hytrach na dewr, yn dioddef ac eto yn llawn llawenydd, yn ymhyfrydu yng ngwynder alarch neu felynder banadl neu gân bronfraith neu dlysi hoew fedwen haf, yn ymgolli yng nghyfoeth prydferthwch coedwig ac adar, yn ddianwadal ei barch i Ifor a'i gariad at Forfudd.

Y mae i Ddafydd ab Gwilym le pwysig yn hanes meddwl Cymru. Dengys ambell gyfeiriad at Sais beth oedd natur gwladgarwch Cymru rhwng y ddwy ymdrech galetaf am anibyniaeth. Ond y peth mwyaf dyddorol yw y berthynas rhwng y bardd a chrefydd ei oes. Yr oedd o ysbryd crefyddol, iaith addoliad yw iaith ei ddesgrifiadau o aderyn a llwyn. Saif fel cynrychiolydd naturioldeb a chydymdeimlad yn erbyn gorthrwm rhagrithiol yr eglwys. Ofnai Dduw, addolai Fair, ond ni fynnai gredu fod cariad yn bechod a fod tlysi yn beth i ymswyno rhagddo. Darlunia seremoniau addoli, darlunia bererindod i Dyddewi, ond o hanner difri hanner chwarae. Mae

eglwys y canoloesoedd wedi colli ei dylanwad, mae dydd Wycliff a Walter Brute yn ymyl. Mae natur ddynol iach wedi gwrthryfela yn erbyn mynachaeth a gorthrwm llys eglwysig.

Faint fu ei ddylanwad ar Gymru? Tystied gwaith beirdd pob oes yn ysgrifennu ei gywyddau fel eu trysorau pennaf. Ac oni ddylai ei gywyddau fod yn rhan o feddwl pob un y mae tlysnï gwaith Duw yn hyfryd iddo?


OWEN M. EDWARDS.

Llanuwchllyn, Awst 21ain, 1901.



Cynhwysiad.

Yr Eira	9	Serchowgrwydd Morfudd ..	55
Mis Mai	11	Y Llwyn Banadl	57
Y Daran	13	Yr Ysgyfarnog	59
Y Niwl	15	Y Plu Paun	60
Gwyneb Mynaches	17	Yr Eos a'r Fran	61
Dyddgu	19	Gofyn ac Ateb	63
Y Lleian	21	Mai a Ionawr	65
Y Deildy	22	Edliw	68
Y Ceiliog Mwyalch	23	Chwedl y Gôg	69
Ifor Hael	24	Anwadalwch Morfudd	71
Maesaleg	25	Y Bwa Bach	72
Diolch am Fenyg	27	Morfudd a'r Bwa Bach	73
Gwallt Merch Ifor	29	Y Brawd Du	74
Canu'n Iach	30	Y Breuddwyd	75
Y Fwyalchen	31	Yr Hedydd	77
Yr Alarch	33	Y Cyffyllog	79
Y Ceiliog Du	34	Cyngor Brawd Llwyd	81
Yr Haf	35	Cyngor Brawd Du	82
Colli'r Haf	37	Morfudd a'r Delyn	84
Cân Bronfraith	39	Y Gwynt	85
Morfudd	41	Taith y Bwa Bach	87
Rhosyr	42	Nodded Ifor	88
Gwallt Morfudd	43	Y Cywydd diweddaf i For-	
Cystudd Serch	44	fudd	89
Y Wylan	45	Yr Ysbryd	91
Gwallt Morfudd	46	Marwnad Gruffydd Gryg ..	93
Claddu y Bardd o Gariad ..	47	Y Drych	96
Pererindod Morfudd	49	I Forfudd, mewn Henaint..	97
Ymbil	50	Y Mabolaeth	99
Y Dyweddio	51	Gyrru'r Haf i Forgannwg..	101
Traserch y Bardd	52	Marwysgafn y Bardd	103
Y Lleuad	53	Y Cywydd Diweddaf	104
Y Ceiliog Bronfraith	54	Mynegai Esboniadol	105



Y Darluniau.

Dafydd ab Gwilym, yn ol syniad arlunydd (Dyer Davies)* <i>I wynebu tud.</i>	I
Wyneb-ddalen (Miss Winifred Hartley), blodeuyn Llydewig a elwir "Cariad yn y niwl"	I
" Pell y clywir uwch tiroedd, Ei lef o'i lwyn, a'i loew floedd."	40
Llus ac eithin	56
"A niwl gwyn yn ael y gwynt"	66
Mis Mai. "Cyfaill cariad ac adar"	67
Herwyr yn mynd i ryfel (A. E. Elias). "Adre y don i gyd ond un." <i>I wynebu tud.</i>	88
Lle llys Ifor Hael (Dyer Davies). <i>I wynebu tud.</i>	104

* "Yr oedd yn fyw hen wraig yn 1572 a welse un a fuase yn ymddiddan â Dafydd ab Gwilym. Hirfain oedd efe, a gwallt laes, melynrych, iddo, a hwnnw yn llawn caeau a modrwyau arian." Ms. canrif xvii.



GWAITH DAFYDD AB GWILYM.

YR EIRA.



I cherddaf, nid af o dy,
Ym mhoen ydd wyf am hynny ;
Nid oes fyd, na rhyd, na rhiw,
Na lle rhydd, na llawr, heddyw ;
Ni 'm twyllir o'm ty allan
Ar air merch i'r eira mân ;
Pla ar y gwaith, plu ar y gŵn
A drig fal chwareu dragwn ;
Fy esgus yw'r fau wisg fydd
Mal unwisg y melinydd.

Ai celwydd wedi 'r calan
Wisgo o bawb wisg o bân ;
Mis Ionawr, blaenawr y blaid,
Mae Duw'n gwneyd meudwyaid.
E ddarfu Dduw'r ddaear ddu,
O gylchedd, ei gwyngalchu ;
Ni bu is coed heb wisg wen,
Ni bu lwyn heb liwionen ;
Blawd mân yw'r pân ar bob pill,
Blawd wybr fal blodau Ebrill ;
Llen oer-gur uwch llwyn irgoed,
Llwyth o'r calch yn llethu'r coed ;

Dafydd ab Gwilym.

Lledrith blawd gwenith a gad,
 Lurig ystum llawr gwastad ;
 Grut oer yw gweryd tir âr,
 Gweren dew ar groen daear ;
 Cawod rydew o ewyn,
 Cnuau mwy na dyrnau dyn.
 Trwy Wynedd y trywenynt,
 Gwenyn o nef, gwynion ynt.
 Ple cymail Duw plu cymaint,—
 Ple gwledd sawl,—plu gwyddau saint ?

Gwas ungroth ag eisingrug,
 Garlwm grys, gwyr lamu grug.
 Y llwch aeth yn lluwch weithian,
 Lle bu'r Mai uwch llwybrau mân.

Oes un a wŷr fis Ionawr
 Pa ryw lu sy'n poeri i lawr ?
 Angylion gwynion, nid gwaeth,
 Sy o'r ne yn saerniaeth.
 Gwelwch dynnu o'r gwaelawd,
 Liff o blanc o lofft y blawd.

Arianwisg o'r ia ennyd,
 Arian byw oera'n y byd ;
 Simwr oer, siom yw'r aros,
 Siomiant bryn, a phant, a ffos ;
 Pais durdew, pwys daear-dor,
 Palment mwy na mynwent môr.
 Mawr syrth ar 'y mro y sydd,
 Mur gwelw o'r môr i'w gilydd.

Ple taria'r pla torwyn ?
 Plastr o hyd, pwy le stair hyn ?
 Pwy faidd ei ddiwladeiddiaw,
 Plwm oer ei glog, ple mae'r gwlaw ?

MIS MAI.

Duw gwyddiad mai da gweddaï
 Dechreuad mwyn dyfiad Mai;
 Di-feth îr-gyrs a dyfai
 Dyw-calan mis mwynlan Mai;
 Di-grin flaen-goed a'm hoedai,
 Duw mawr a roes doe y Mai.

Dillyn beirdd, ni'm rhy-dwyllai,
 Da fyd im oedd dyfod Mai;
 Hardd-was teg a'm anrhegai,
 Hylaw wr mawr, hael yw'r Mai;
 Anfonas im iawn fwnai,—
 Glas defyll glân mwyn-gyll Mai,
 Ffloringod brig ni'm digiai,
 Fflwr-de-lis, gyfoeth mis Mai.

Dihangol rhag brad i'm cadwai
 Dan esgyll dail, mentyll Mai;
 Llawn wyf o ddig na thrigai,
 (Beth yw i mi !) byth y Mai.

Dofais ferch a'm hanerchai,
 Dyn gwiw-ryw mwyn, dan gôr Mai;
 Tagmaeth beirdd a'm hurddai,
 Serchogion mwynion, ym Mai.

Mab bedydd Dofydd difai,
 Mygr-las, mawr yw urddas Mai.

O'r nef y daeth a'm coethai
 I'r byd, fy mywyd yw Mai;
 Lle glas gofron, llon llatai,
 Neud hir ddydd mewn irwydd Mai;
 Neud ser nos, nid trwm siwrnai,
 Nid heirdd gweilch, ond mwyeilch Mai.

Dafydd ab Gwilym.

Neud golas, nid ymgelai
 Bronwydd a brig manwydd Mai ;
 Neud llon eos lle trosai,
 Llafar yw mân adar Mai ;
 Neud esgud nwyf a'm dysgai,
 Nid mawr ogoniant ond Mai.

Paun asgell-las dinas-dai,
 Pa un o'r mil, penna'r Mai ;
 Pwy o ddail a'i hadeiliai,
 Yn gyd a mis o goed Mai ?

Magwyr laswyrdd a'i magai,
 Mygr ir-gyll, mân defyll Mai.

Pyllawg, gorau pwy pellai
 Y gauaf,—mwynaf yw'r Mai ;
 Dechreu haf llathr a'i sathrai,
 Deigr a'i mât, di-egr y Mai.
 Deil-gyll gwyrdd-risg a'm gwisgai,
 Da fyd im yw dyfod Mai.

Duw doeth gadarn a farnai,
 A Mair, i gynnal y Mai ;
 Mynnwn, pe nef a'i mynnai,
 Pe deuddeg mis fo mis Mai.

Y DARAN.

DAN lwyn mewn dien lannerch,
 A dail Mai rhwng dwylaw merch,
 Myn dyn, pan oeddym ein dau
 Lawenaf, ddyn aelwinnau,
 Taro a wnaeth, terwyn oedd,
 Trwst taran tros y tiroedd.

A ffrydiaw croewlaw creulawn,
 A phoeri mellt yn ffrom iawn ;
 Gwylltio'r forwyn, fwyn feinwen,
 Gwasgaru ar ffo gwisg ei phen ;
 Tan y gwÿdd 'r oedd tân yn gwau,
 Ffoes hon, a ffoais innau.

Duryn fflam fu'r daran fflwch,
 Dug rwyfa ein digrifwch ;
 Trwch ydoedd, tristwch i'r trwyn,
 Trwst mawr yn tristhau morwyn ;
 Twrf a glyw pob tyrfa glau,
 Tarw crÿg yn torri creigiau ;
 Taran a ddug trinoedd in,
 Trwst arfau wybr tros derfyn.

Twrf o awyr, ai tyrfellt,
 Tompyr a fag tampran o fellt ;
 Tân aml a dwfr tew'n ymladd,
 Tân o lid a dwfr tew'n ei ladd ;
 Clywais fry, ciliais o fraw,
 Carlaidd udgorn y curlaw ;
 Mil fawr yn ymleferydd
 O gertwynau sygnau sydd ;
 Braw a ddisgynnodd i'm bron,
 Bwrw deri o'r wybr dirion ;

Dafydd ab Gwilym.

Gwyllt yr awn, a'm gwallt ar wŷr,
Gan ruad gwnn yr awyr.

Gwiddon groch yn gwaeddi'n gre,
Gwrach hagr dan guro 'i chawgie ;
Rheg yn germain rhyw gŵyn gormes,
Rhugl groen yn rhyglaw gwres ;
Torri cerwyni crinion
A barai Grist o'r wybr gron ;
Canu trwmp o'r wybr gwmpas,
Curo gwlaw ar bob craig las ;
Creglef yn dryllio creiglaur,
Crechwen yr wybr felen fawr ;
Trwy ei hun y trawai hwrdd,
Tebyg i ganu tabwrdd.

Undyn nid oedd ond ni ein dau
Mewn man, 'y mun a minnau :
Fy nyn wen, ofni a wnai
Awyr arw ban weryrai ;
Drwg fu'r daran i'm annos,
Dwyn dylif, ac ofni dyn dlos.

Arw fleiddiast, oerfel iddi,
Am ysgar meinwar a mi.

Y NIWL.

QED â'm rhiaid addfeindeg
 A wnaethwn, yn dalgrwn deg,
 I fyned, wedi ymgredu,
 Ymaith ; ac oferdaith fu.

Mynd yn gynnar i'w haros,
 Eginio niwl cyn y nos.

Tywyllodd wybr fantellau
 Y ffordd, fel petawn mewn ffau.

Cuddio golwybr yr wybren,
 Codi niwl cau hyd y nen.

Cyn cerdded cam o'm tramwy,
 Ni welid man o'r wlad mwy,
 Na gorallt fedw, na goror,
 Na bronnydd, meusydd, na môr.

Och it, niwlen felen fawr,
 O throit ti, na tharrit awr.

Casul o'r awyr ddu-lwyd.
 Carthen aniben iawn wyd ;
 Mŵg ellyldan o Annwn,
 Abid tew ar y byd hwn ;
 Mal tarth uffernbarth ffyrnbell,
 Mŵg y byd yn magu o bell,
 Uchel dop adar gopwe,
 Fel gweilgi, 'n llenwi pob lle ;
 Tew wyd, a glud, tad y gwlaw,
 Tyddyn a mam wyd iddaw ;
 Gwrthban draw trymwlaw tromlyd,
 Gwe ddu bell a gudd y byd ;

Dafydd ab Gwilym.

Cnwd anhygar, diaraul,
 Clwyd forlo rhyngo a'r haul;
 Nos im fydd dydd difyr-glwyd,
 Dydd yn nos, pand diddawn wyd.

Tew eira fry 'r hyd tai 'r fron,
 Tad llwydrew, tidiau lladron;
 Gwasarn yr eira llon Ionawr,
 Goddaith o'r awyr faith fawr;
 Ymlusgwr, bwriwr barrug
 Ar hyd moelydd, ar grinwydd grug;
 Hudol egwan yn hedeg,
 Hir barthlwyth y Tylwyth Teg;
 Gown i'r graig, gu awyr gron,
 Cwmwl planedau ceimion;
 Ager yn tynnu eigiawn,
 Mor-wynt o Annwn mawr iawn;
 O'm blaen ar riw hagr-liw hyll,
 Obry yn dew wybren dywyll.

Fy nhroi i fan trwstanwaith
 Fel uffern, i figin-wern faith,
 Lle'r ydoedd yn mhob gobant
 Ellyllon mingeimion gant,
 Ni chawn, mewn gwern uffernol,
 Dwell heb wrysg dywyll heb rol.

Ni wnaaf oed, anhy ydwy,
 Ar niwl maith, am anrhaith, mwy.

GWYNEB MYNACHES.

NI WELSAI Y BARD D OND EI HWYNEB, GAN EI
CHREFYDDWISG.

DAL neithiwr, delwi wnaethum,
Drem o bell, yn drwm y bum,
Yn nhâl (Och na thariai 'n hwy !)
Ac yn wyneb Gwenonwy.

Anfoddlawn fum, gorfum ged,
I'm golwg am ei gweled ;
Delw eurddrych, dwyael eurddrym,
Deuwell oedd petawn dall im ;
Daroedd ni bu wisgoedd waeth
I dailiwr o hudoliaeth ;
Deuliw Nyf, nis dylai neb
Duaw hon. Ond ei hwyneb
A'i thal mi a'i dyfalwn, —
Och, Dduw Tad, na chuddiwyd hwn.
Megis o liw, — megais lid, —
Mŷr eira, neu faen mererid.

Mwyn y gosode yr Iesu
Am eira dâl y mwrai du ;
Dwyael geimion, delw gymwys,
Deurwym lân ar y drem lwys.

Diliau yw ei haeliau hi,
Dail sabl fal dwyael Sibli ;
Muchudd deurudd, a'u dirwyn,
Main eu tro ym mon y trwyn.
Mwyalchod teg ym mylch ton,
Mentyll didywyll duon ;

Dafydd ab Gwilym.

Dwy ffynnon wirion warae,
 Eu dwyn uwch meindrwyn y mae ;
 Gwreïchion aur, grechwen araul,
 Gwedi eu rhoi mewn gwydr a haul,
 Amrant du ar femrwn teg,
 Fal gwennol ar fol gwaneg.

Dau afal aur, difai lun,
 Dwy nobl aur dan wyneblun ;
 Diliau rhos, dail o aur rhudd
 A dorrwyd ar ei deurudd ;
 Granau cwyr mewn gryniau calch,
 Grawn gwingoed ar groen gwyngalch ;
 Ceirios addfed, cwrs addfwyn,
 Cwrel, lliw criawol llwyn ;
 Dwy sel o liw grawn celyn,
 Dagrau gwaed ar deg eira gwyn ;
 Dail ffion grynon eu gwraidd,
 Dwy ogfaenen deg fwynaid.

Dyfelais bryd fy myd main,
 Ei deurudd fal haul dwyrain ;
 Dwys oedd dwy wefus heddyw,
 Ar enau llen o'r un lliw,
 Yn gweini claer ddidaer ddadl,
 A ffroenau a pher anadl ;
 Ac aelgeth, liw ffrwd gweilgi,
 A gyrraedd hyd ei grudd hi ;
 Hoew ar fwnwgl hir feinwyn,
 Golwg teg fydd gweled hyn.

Dug fy nau lygad o dwyll,
 Do, gennyf, fal dwy ganwyll.

DYDDGU.

A IEUAN GRUFFUDD EI THAD.

IEUAN, ior gwaew-dân, gwiw-dad,
 Iawn fab Gruffydd, cythrudd cad,
 Wyr Cuhelyn, wyn winglaer,
 Llwyd unben, wyd iawn ben aer.
 Y nos arall, naws arial,
 Bum i'th dŷ, y bo maith dâl.
 Nid hawdd er hynny hyd heddyw,
 Hoen wymp, im gaffael hun wiw.

Dy aur a gawn, radlawn rydd,
 Dy loew-win, dy lawenydd.
 Dy fedd glwys di-faddau i gler,
 Dy fragod du ei friger.

Ni chysgais, ni weais wawd,
 Hun na'i dryll, heiniau drallawd.
 Duw lwyd, pwy a'm dilea,
 Dim yn fy nghalon nid a
 Eithr ei chariad taladwy,
 O rhoed im oll, ai rhaid mwy?
 Ni'm câr hon, fo'm curia haint,
 Fe'm gad hun, fe'm gad henaint.
 Rhyfedd yw doethion Rhufain,
 Rhyfeddach pryd fy myd main.
 Gwynnach nag eira gwanwyn,
 Gweddwyf o serch dy ferch fwyn.
 Gwyn yw'r tâl dan y wialen,
 Du yw'r gwallt, diwair yw gwen.
 Duach yw'r gwallt, diochr gwŷdd,
 Na mwyalchen, na muchudd;

Dafydd ab Gwilym.

Gwynder disathr ar lathrgnawd,
 Yn duo'r gwallt, iawnder gwawd.
 Nid anhebyg, ddiddig ddydd,
 Modd ei phryd, medd ei phrydydd,
 I'r ferch hygar a garawdd
 Y milwr gynt, mawlair gawdd,
 Peredur, ddwys-gur ddisgwyl,
 Fab Efrog, gwrdd farchog gwyl;
 Pan oedd yn edrych, wych wawl,*
 Yn yr eira, ion eryrawl,
 Llen asur ger Llwyn Esyllt,
 Llwybr lle bu'r gwalch gwyllt
 Yn lladd, heb un a'i lluddiai,
 Mwyalch, morwyn falch, ar fai.
 Yno yr oedd iawn arwyddion,
 Pand Duw a'i tâl, paentiad hon,—
 Mewn eira, gogyfuwch lluwch llwyth,
 Modd ei thâl, medd ei thylwyth;
 Asgell y fwyalch esgud
 Megis ei hael, megais hud;
 Gwaed yr edn gwedi'r odi,
 Gradd hael, mal ei gruddiau hi.

Felly y mae, eurgae organ,
 Dyddgu a'r gwallt gloewddu glân.

*A phan ddaeth allan yr oedd cawod o eiry wedi odi y nos gynt, a gwalch wyllt wedi lladd hwyad yn nhal y cuddugl. A chan dwrf y march, cilio o'r walch; a disgyn brân ar gig yr aderyn. Sef a orug Peredur sefyll, a chyffelybu duedd y frân, a gwynder yr eira, a chochder y gwaed, i wallt y wraig fwyaf a garai, a oedd cyn ddued a'r muchudd, a'i chnawd, oedd cyn wyned a'r eiry, a chochder y gwaed yn yr eiry i'r ddeufan gochion oedd yn ei gruddiau.—MABINOGI PEREDUR AB EFRAWG.

Y LLEIAN.

GARU dyn lygeid-du lwyd,
Yn ddyfal a'm gwna'n ddifwyd.

Ai gwir, y ferch a garaf,
Na fynni fedw hoewdw' haf;
Ac na thewi yn y ty tau,
Wyth liw ser, a'th laswyrâu?
Crefyddes a santes wyd,
Caredig i'r côr ydwyd;
Er Duw, paid a'r bara a'r dŵr,
A bwrw ar gas y berwr;
Paid, er Mair, a'r pader main,
A chrefydd myneich Rhufain.
Na fydd leian y gwanwyn,
Gwaeth yw lleianaeth na llwyn;
Dy grefydd, deg oreu-ferch,
Y sydd wrthwyneb i serch.
Gwarant modrwy, a mantell,
A gwrdd wisg, a urddai'n well.
Dyred i'r fedw gadeiriog,
I grefydd y gwŷdd a'r gôg;
Ac yno ni'n gogenir,
Ennill Nef yn y llwyn îr.
A chadw i'th gof lyfr Ofydd,
A phaid a gormod o ffydd.
Ninnau gawn yn y gwynwydd,
Yn neutu'r allt, enaid rhydd.
Ai gwaeth i ddyn, gwiw ei thaid,
Yn y llwyn ennill enaid
Na gwneuthur fel y gwnaetham
Yn Rhufain ac yn Sain-Siam?

Dafydd ab Gwilym.

Y DEILDY.

DDDYN gannaid, ddawn gynneddf,
 Dyddgu, a'r gwallt lliwddu lleddf,
 Dy wahawdd, drych y tri-phlwyf,
 I Ddôl yr Aeron ydd wyf.

Tra fo'm allan tan y dail,
 Cynnes fedw a'n cynnail ;
 Lle cyrch iyrchod rhywiog-ryw,
 Lle cân edn, lle cain ydyw,—
 Eos gefnllwyd ysgafnllef,
 A bronfraith ddirgriffaith gref.
 Naw pren, teg eu hwynepryd,
 Y sydd o goedydd i gyd ;
 Lloches adar i chwareu,
 Llwyn mwyn, llyna'r llun y mae,—
 I wared, yn grwn gwmpas,
 I fyny, yn glochdy glas ;
 O danyn, eiddun addef,
 Meillion aur, myn Myllin nef.

Lle newydd adeilwydd da,
 Lle nwyf aml, lle nef yma ;
 Lle tew lletyau mwyeilch,
 Lle mygr gwŷdd, lle megir gweilch ;
 Lle anhysbys, dyrus dir,
 Gwerdd dŵr rhag caswr coeshir.

Yno heno, hoen waneg,
 Awn, ai nad awn, 'y nyn deg ?
 Od awn, awn, wyneb gwyn-loew,
 Fy nyn lygaid gloyn gloew.

Y CEILIOG MWYALCH.

Y CEILIOG mwyalch balch bwyll,
 Dawn i'th dâl, a dyn na'th dwyll !
 Cyfion mewn glyn d' emyn di,
 Cyson o union ynni ;
 Crefyddwr wyd anwydawl,
 Credi fi, croew yw dy fawl.
 Gwisgaist, enynnaist annerch,
 Gwisg ddu, nid er selu serch,—
 Gwisg a ddanfonos Iesu
 Is dail it, o osai du ;
 A dwbl gwell na deuban,
 Mawr ei glod, o'r mwrai glân ;
 Sidan gapan am gopa
 Yn ddu rhoed yn ddiau'r ha ;
 Dwbled hardd-gled mewn rhedyn,
 Loew-ddu glir uwch landir glyn ;
 Muchudd dy ddeurudd eirian,
 Pig cwrel, gloew angel glân.

Prydydd wyt, medd proffwydi,
 Cywyddol, manol i mi ;
 Awdur cerdd adar y coed,
 Esgud cyw mwyn-drud meindroed ;
 Ys gwyddost yn osgeiddig,
 Annerch Gwen dan bren a brig ;
 Os gwn innau o newydd,
 Ys gwir gwawd ysgwier gwÿdd,
 Ganu moliant a'i wrantu
 I ti, y ceiliog wyt du.
 Du yw dy gwfl, da ei dôn,
 A'th gasul, edn-iaith gyson ;
 Duw a'th gatwo, tro traserch
 Adain fyw, byw edn y serch.

IFOR HAEL.

IFOR aur ei fawrwriaeth,
 Deg yw'r fau dihagr faeth ;
 Dewraf wyt, a gwrddaf gŵr,
 Dy ddilyn dieiddilwr.

Myfi yw, ffraeth-lyw ffrwythlawn,
 Maer dy dda, mawr yw dy ddawn ;
 Ys dewr lid ystyriol ydwyd,
 Ystôr im, ys da ior wyd.
 Telais it wawd tafawd hoew,
 Telaist im fragawd du-loew ;
 Rhoist im swllt, rhyw ystum serch,
 Rhoddaf it brif enw Rhydderch.
 Cyfarf arf, eirf ni'th weheirdd,
 Cyfaillt a mab aillt y beirdd ;
 Cadarn wawr cedyrn wiwryw,
 Caeth y gler, cywaethog lyw.
 Da oedd, a syber, dy âch,
 Duw ni fedd dyn ufuddach ;
 Wyt i'th fardd pellgardd pwyllgall,
 Llywiwr llu, fel llaw i'r llall.

O'm hiaith y rhyluniaethir
 Air, nid gwael arnad y gwir ;
 Hyd yr ymdaith dyn eithaf,
 Hyd y try hwyl hy haul haf,
 Hyd yr henir y gwenith,
 A hyd y gwlych hoewdeg wlith,
 Hyd y mae iaith Gymrâeg,
 A hyd y tyf hadau teg ;
 Hardd Ifor, hoew-ryw ddefod,
 Hir dy gledd, heuir dy glod.

MAESALEG.

CENNAD O LYS IFOR YM MORGANNWG, AT GYMDEITHION Y
 BARD D YM MON, I OFYN IDDYNT EI HEBGOR YNO,
 OHERWYDD EI FAWR GROESO GAN IFOR HAEL.

GERDDA was, câr ddewis-ffyrdd,
 Canfod gwmp uwch cein-fedw gwyrdd;
 O Forgannwg dwg dydd da
 I Wynedd, haelfedd hwylfa;
 Ac anwyl wyd, befr-nwyd byd,
 Ag annerch gwlad Fôn gennyd.

Dywaid—o'm gwlad ni'm gwadwyd,
 Diog wyf,—dieuog wyd,—
 A'm bod ers talm, salm Selyf,
 Yn caru dyn uwch Caerdyf.
 Nid salw na cham fy namwain,
 Ac nid serch ar un ferch fain,—
 Mawrserch Ifor a'm goryw,
 Mwy na serch ar ordderch yw.
 Serch Ifor a glodforais,
 Nid fal serch anfadful Sais;
 Ac nid af, berffeithiaf bôr,
 O'i serch ef, os eirch Ifor,
 Nag undydd i drefydd drwg,
 Nag unnos o Forgannwg.

Pand digrif yng ngwydd nifer,
 Caru claer, nod-saethu cler;
 Goludog hebog hybarch,
 Gŵr ffyrf iawn ei gorff ar farch;
 Campiwr, aer cyflymder coeth,
 Cwmpas-ddadl walch campus-ddoeth

Carw difarw Deifr ni oddef,
Cywir iawn y cae wyr ef.

Mawr anrhydedd a'm deddyw,
Mi a gaf, o byddaf byw,
Hel â chwn, nid haelach ior,
Ac yfed gydag Ifor ;
Seuthu ei geirw saeth-hynt,
A bwrw ei weilch i'r wybr hynt ;
A cherddau cildannau'n deg,
A solos ym Maesaleg,
Chwareu ffristial, a thawlbwrdd,
Yn un gyflwr a'r gŵr gwrdd.

O cai neb gytundeb coeth,
Rhagor rhag y llaw rhygoeth,
Rhigl â cherdd yr anrhegaf,
Rhagor gan Ifor a gaf.
Nid hael wrth gael ei gyfri,
Nid dewr neb, ond ein teyrn ni ;
Nid af o'i lys, diful ior,
Nid ufudd neb ond Ifor.

DIOLCH AM FENYG.

FOR ydoedd afradaur,—
O'i lys nid ai bys heb aur.

Doe'r oeddwn, gwn, ar giniaw,
I'w lys yn cael gwin o'i law.
Mi a dyngaf â'm tafawd,
Ffordd y trydd gwehydd gwawd,
Goreu gwraig hyd Gaer Geri,
A goreu gŵr yw d' wr di ;
Tra fu'n trafaelu trwy fodd,
Trwy foliant y trafaeliodd.

Y dydd y daethum o'i dai,
A'i fenyg dwbl o fwnai,
Benthyg ei fenyg i'w fardd
A roi Ifor oreufardd,—
Menyg gwynion tewion teg,
A mwnai ym mhob maneg ;
Aur yn y naill, diaill dau,
Arwydd yw i'r llaw orau ;
Ac ariant, moliant miloedd,
O fewn y llall, f' ennill oedd.

Merched a fydd yn erchi
Benthyg fy menyg i mi ;
Ni roddaf, dygaf yn deg
Rodd Ifor, rwydd ei ofeg.
Ni wisgaf faneg nigys
O groen mollt, i grino 'mys ;
Gwisgaf, ni fynnaf ei fâr,
Hyddgen y gŵr gwahodddgar ;
Menyg gwyl am fy nwylaw,
Ni bydd mynych y gwlych gwlaw.

Dafydd ab Gwilym.

Rhoddaf i hwn,—gwn ei ged,
 Nawdd rhugl neuadd Rheged,—
 Bendith Taliesin windost,
 A bery byth, heb air bost.
 I ben y bwrdd, erbyn bwyd,
 Yno'r el yn yr aelwyd,—
 Lle trosa rhan o'm traserch,
 Lle dewr mab, lle diwair merch ;
 Lle trig y bendefigaeth,
 Yn wleddau, yn foethau'n faeth ;
 Yn wragedd teg eu hegin,
 Yn feirch, yn weilch, ac yn win ;
 Aml drwsiad, rhad rhydeg,
 Yn aur tawdd, yn eiriau teg.
 Nid oes bren yn y Wenallt
 Na bo'n wyrdd ei ben a'i wallt,
 A'i gangau yn ogyngerth,
 A'i wn, a'i bais yn un berth.
 Pand digrif yw i brifardd
 Weled hoew gynired hardd
 Arglwyddiaeth, dugiaeth deg,
 A seiliwyd yn Maesaleg.

Menyg o'i dref a gefais,
 Nid fel menyg sarrug Sais ;
 Menyg pur galennig por
 Mwyn-gyfoeth, menyg Ifor ;
 Menyg pendefig Dafydd,
 Ifor Hael, pwy'n fwy a'i rhydd ?
 Fy mendith wedi nithiaw,
 I dai Ifor Hael y daw.

GWALLT MERCH IFOR HAEL.

Y fun a'r gwallt o fanaur,
A roe lawnt ar wiail aur ;
Un radd a llwyn o ruddaur,
Lliw Non dan y llwyn o aur ;
Gwisg angel o wallt melyn,
Yn wrÿdd aur am war y ddyn ;
Fal goddaith yn ymdaith nos,
Yw'r llwyn uwch pryd y llinos ;
Uwch feinir goldwir a gaid,
Hyd dwyraff o het euraid ;
Iarles dan gnwd o eurllin,
Banadl aur o ben hyd lin ;
Lliw'r mellt goruwch y gelltydd,
Coed aur gwiw cyhyd a'r gwÿdd ;
Bronbelau fal siopau Sieb,
A droes hon dros ei hwyneb ;
Gwefr o liw, neu gyfryw lwyn
I guddio dyn deg addwyn ;
Sirian yn mysg y manaur,
Coron o wallt, cwyr neu aur ;
Maner aur pan ymwenynt
Lliw tân y Gad Gamlan gynt ;
Crwybr o aur pan ei cribai,
Pwn mawr o esgyll paun Mai ;
Mae'r pryd ym marn y prydydd
Ac aur ar hwn, pan fae'n rhydd
Ei liw a welai luoedd,
Drwy'r byd un dihareb oedd
Ei oleurwydd noswyl Ieuan,
A'i frig yn debyg i dân.

CANU'N IACH.

I IFOR HAEL, PAN YMADAUDD Y BARD D A'I LYS
FYNNED I GLERA I WYNNEDD.

UFUDD serchogion ofeg,
Ifor, teyrnaidd ior teg,
Myned fal y dymunwyf,
Ar iawn, i Wynedd yr wyf;
Deufis yn nwyfan Dyfi
Ni allwn fod hebot ti.

Y galon, bedroglgron bor,
Ni chyfyd,—yn iach Ifor!
Na llygad graddwlad gruddwlych,
Na llaw, na bawd, lle ni bych.
Nid di-fudd rym im yma,
Nid oedd gall, na deall da
I neb, a garai naw
Diodydd gwin, dy adaw.

Maith yth ragoriaeth a gerir,
Mawr ior teg y môr a'r tir.
Cawn o ddawn a eiddunwyf,
Cywaethog ac enwog wyf,—
O eiriau teg, o ariant,
Ag aur coeth, fel y gŵyr cant;
O ddillad, nid bwriad bai,
Ac arfau Ffrengig erfai;
Ufudd gost o fedd a gwin,
O dlysau ail Daliesin.
Tirion grair, tarian y gred,
Tydi Ifor, tad yfed,
Enw tefyrn, ynad hoewfoes,
Wyneb y rhwydd-deb, a'u rhoes.

Y FWYALCHEN.

EI GYRRU AT IFOR FAESALEG.

Y FWYALCHEN awenawl,
 Ymlyni gerdd ym mlaen gwawl,
 Ceiliog wyd yn y celydd,
 Yn ngoror dôl, yn ngwawr dydd ;
 Cyw'n y dail yn canu'n deg,
 Caniadur acen hoew-deg ;
 Cyw a'r hoff lef cywair fflwch,
 Cyfeilydd cân cof elwch ;
 Toniadur pen twyn ydwyd,
 Tan y gaer wen tongar wyd ;
 Trydon dy fan ar lannerch,
 Trydar syw, trawiadur serch ;
 Tref wanwyn yw'r tewlwyn tau,
 Tŵr adail y trawiadau.

Tyn o goed a'r ton gwiwdeg,
 Yn geiniad doeth mewn gŵn teg ;
 Du serchog yw'th glog mewn glyn,
 A myfi sy'n d'ymofyn.
 Dos o dir Gwynedd ar daith
 Yn dirion iawn dy araith ;
 Hed erof, a bydd daerwalch,
 Ar gân, i Wlad Forgan falch ;
 Hed yn bres i wlad Eryllt,
 Hedwr i'th oed hyd goed gwyllt.

Gweli wlad olygiad lwys,
 I brydydd mae'n baradwys,—
 Morgannwg, wyn olwg nyf,
 Ag anwyl ydyw gennyf ;

'E gâr bardd y wlad hon,
 A'i gwinoedd, a'i thai gwynion.
 Gweli dri-phlas urddasawl
 Ifor mau, nifer a'u mawl.
 Ifor hael, un-fawr helynt
 A'r tri haelion gwychion gynt,—
 Nid hael Nudd yn rhoddi rhuddaur,
 Wrth Ifor, deg anrheg aur ;
 Os mawrdeg y rhoes Mordaf,
 Aur gwell gan Ifor a gaf ;
 A rhoddwr gwell na Rhydderch
 Yw Ifor, lwys-ior serch.
 Gwych Ifor, dewr-bor lle dêl,
 Gŵr yngod a gair angel ;
 Gorau un gŵr a garaf,
 Gwrdd ion im ; ei gerdd a wnaf.
 Mi a ganaf â'm genau
 Mwynair mawl i'r muner mau.
 Pennaig gwlad yw'm paun glewdaer,
 Praff erlyn, llyw terwyn taer ;
 Por y tir yn peri twg
 Ar y gwin ym Morgannwg.
 Fy myd, gwyn ei fyd a fai
 Yn ei windorf i'w wyndai.

Dwg hyn yn falch, fwyalch fau,
 Yn gariad i'r dyn gorau ;
 Gorau dyn yn ei gaer deg,
 Yw'm Selyf ym Maesaleg.

YR ALARCH.

YR alarch, ar ei wiw-lyn,
 Abid galch, fel abad gwyn,
 Llewych edn y lluwch ydwyd,
 Lliw gŵr o nef llawgrwn wyd.
 Dwys iawn yw dy wasanaeth,
 Hyfryd yw dy febyd faeth.
 Duw roes it yn yr oes hon
 Feddiant ar Lyn Syfaddon ;
 Dau feddiant, rhag dy foddi,
 Radau teg, a roed i ti,—
 Cael bod yn ben pysgodwr,
 Llyna ddawn, uwch llyn o ddwr,
 A hedeg ymhell elli
 Uwchlaw y fron uchel fry,
 Ac edrych, edn gwyn gwych gwâr,
 I ddeall clawr y ddaear,
 A gwylio rh'od a'r gwaelod,
 A rhwyfo'r aig, rhif yr od.
 Gwaith teg yw marchogaeth ton
 I ragod pysg o'r eigion ;
 Dy enwair, wr di-anhardd,
 Yn wir, yw'r mwnwgl hir hardd.

Ceidwad goruwch llygaid llyn,
 Cyfliwiaidd cofi o ewyn,
 Gorwyn wyd uwch geirw y nant,
 Mewn crys o liw maen crisiant ;
 Dwbled fel mil o lili,
 Wasgod teg, a wisgid ti ;
 Sieced o ros gwyn it sydd,
 A gŵn o flodau'r gwynwydd.

Y CEILIOG DU.

S YDAG ieir ceir dy garu,
 Y ceiliog dewr a'r clog du ;
 Cwrel-ael yn caroli,
 Cyfliw bais fel cofl y bi ;
 Cyd-wr fry coed ieir y fron,
 Cwbl o amod, cyw blowmon ;
 Castellwr, diddanwr dŷn,
 Casul-wyrdd edn ceseil-wyn ;
 Ysgutyll yn cynnull cad,
 Esgud ewybr, ysgod abad ;
 Ysgwl du ym mlaen osgl dâr,
 Esgob-lun mewn ysgablar ;
 Delw eglwyswr dail gleision,
 Delw'r brawd, bregethwr bron ;—
 Dy lifrai o'r mwrai main,
 Dy lawes o dew liain ;
 Dwbled it o blu y don,
 Dwy-ael dy fentyll duon ;
 Crefydd-wisg it a wisgwyd,
 Crefydd serch, crefydd-was wyd ;
 Ni mynnit, ben ymwanwr,
 Bwyd y dydd ond bedw a dŵr,
 Bwyd o frig coed bedw y fron,
 Bwyd ieir mewn bedw irion.

Beiddiwr aer, bydd yr awron,
 Latai im at eiliw ton ;
 Dywed i Wen ysplenydd,
 Deled i oed, deuliw dydd.

YR HAF.

WAE ni, hil eiddil Addaf,
Fordwy rhad, fyrred yr haf.

Rho Duw ! gwir mae dihiraf,
Rhag ei ddarfod, ddyfod haf ;
A llednais wybr ehwybraf,
A llawen haul, a'i lliw'n haf ;
Ac awyr erwyr araf,
A'r byd yn hyfryd yr haf ;
Cnwd da iawn, cnawd dianaf,
O'r ddaear hen, a ddaw'r haf ;
I dyfu, glasu, glwysaf
Dail ar goed, y rhoed yr haf ;
A gweled modd y chwardda
Gwallt ar ben hoew-fedwen ha ;
Paradwys, iddo prydaf,
Pwy ni chwardd pan fo hardd haf ?
Glod anianol y molaf
Glowysfodd, wi ! O'r rhodd yw'r haf !
Deune geirw dyn, a garaf
Dan frigau rhyfig' r haf ;
Côg yn serchog, os archaf,
A gân ddiwedd huan haf,
Glasgain edn glwys ganiadaf,
Cloch osber am hanner haf ;
Bangaw lais eos dlosaf,
Bwyntus hy, dan bentus haf ;
Ceiliog, o'r frwydr y ciliaf,
Y fronfraith, hoew-fabiaeth haf ;
Dyn a fydd hirddydd harddaf
A draidd gair hyfaidd, yr haf ;
Eiddig, cyswynfab Addaf,
Ni ddaw hwn oni ddaw haf ;

Rhoed ei gyfoed o'r gauaf,
A rhan serchogion yw'r haf.

Minnau tan fedw nis mynnaf
Mewn tai llwyn ond mentyll haf;
Gwisgo gwe lân am danaf,
Pybyr gwnsallt harddwallt haf.
I dai dail y didolaf,
Anwyd ni bydd hirddydd haf;
Lledneis-ferch os anerchaf,
Llon yw hwyl hon ar ael haf.

Gwawd ni lwydd, arwydd oeraf
Gwahardd ar hoew fardd yr haf;
Gwynt ni ad gwasgad gwisgaf,
Gwaeddem "Hwnt." Gwae ddoe am haf.
Hiraeth, nid ymddiheuraf,
Dan fy mron am hinon haf.

O daw hydref, haf auaf,
Eira a rhew i yrru'r haf;
Gwae finnau ddyn, gofynnaf,
Os gyr, mor rhyfyr mae'r haf.

COLLI'R HAF.

TR haf, bendefig rhyfalch,
 Ple'r aethost? Ti fuost falch;
 Per oeddyd, y byd a'i barn,
 Pennaig coed, fal paun cadarn;
 Plethwr, ir-gauwr gwiail,
 Peiriad hard yn peri dail;
 Pefr farchog glan a llannerch,
 Per drwsiwr llwyn er mwyn merch.
 Gwnai fwyalch hygar-falch gerdd,
 A glyn-goed yn llawn glan-gerdd;
 A hoew-dôn gainc ehediad
 I'th ddydd yn y gwŷdd a gaid,
 Yr eos ar ir wiail,
 Rhion, prydyddion y dail;
 Deryn oedd ym min dŵr nant
 Yn dysgu beirdd a descant;
 Mwyna gerdd ym min gwerddon,
 Ymysg llu'n gwau miwsig llon;
 A merch i'm hannerch ym Mai,
 Dyn dlosdeg dan dy lasdai;
 Bun wen, ag awen ar gof,
 A'r enaid yn daer ynnof.

Weithian o'n gwlad yr aethost,
 A daeth bâr hyd daear dost;
 Mae pob llwyn ar dwyn a dôl,
 Ys dyddiau, yn gystuddiol;
 Nid oes gelfan min llannerch
 Im i gynnal oed â merch,
 Na llatai ddifai ddwyfol
 A gaf fi mewn deri dôl.

Gauaf sy'n lladd y gwiail,
 A dug o goedydd y dail,

A'i chwithig wynt yn chwythu,
 A'i ruad arth, a'i rew du,
 Mawr ei sain yn darmain dig,
 Ffei arnaw, Iddew ffyrnig.

Ni ddaw gwen yn hawdd i goed,
 Ni fyn nythgell o fewn noethgoed ;
 Ein parlwr glas cwmpasawg
 Aeth yn fwth rhy rwth yrhawg ;
 Y llennyrch lle'dd oedd llonydd,
 Wers oer, yn luddfawr y sydd ;
 Nid oes babell mewn celli,
 Na man fel bu gynt i mi ;
 Na merch wen dan fedwen fawr,
 Na dani gael oed unawr.

Yr haf hynaws, rhwyf hinon,
 O'm serch am danad mae'm son ;
 Dychwel yn ol i'r dolydd,
 Yn drum draw er gwisgaw gwŷdd ;
 Rho ddail, a gwiall, ar goed,
 A'th degwch i berth dew-goed,
 A doldir yn llawn deildai,
 A thrydar mân adar Mai ;
 I'th irlas bais a'th erlawnt,
 Yn llawen rhull, yn llawn rhawnt,
 Rho im oed, dydd, a gwŷdd gallt,
 Yn gaer i'm dyn deg eurwallt,
 A'th glod achlân a ganaf,
 Can hawddfyd hyfryd i'r haf.

CAN BRONFRAITH.

MAWR yw'r gelfyddyd, a maith,
 Ar brenfrig a roe'r bronfraith,
 Wybod datod mydr-glod mawl
 Yn y llwyni meillionawl.
 Clo mydr, clyw ei ymadrawd,
 A chlo y cân ni chlyw cawdd,
 Modd y gŵyr, medd a garai,
 A merch a'i gwrendy ym Mai.

Y ceiliog, serchog ei son,
 Bronfraith dilediaith, loew-don,
 Dawn fad lun dan fedw, ei lais,
 Deg, loew-iaith, doe a glywais.

Ba ryw ddim a fu berach,
 Blethiad ei chwibaniad bach?
 Pylgain y darllain deir-llith,
 Plu yw ei gasul i'n plith.
 Pell y clywir uwch tiroedd,
 Ei lef o'i lwyn, a'i loew-floedd.
 Proffwyd rhyw praff awdur hoed,
 Pencerdd gloew angerdd glyngoed
 Pob llais diwael, yn ael nant,
 A gân ef o gu nwyfiant;
 Pob caniad mad mydr angerdd,
 Pob cainc ar organ, pob cerdd;
 Pob cwlm addwyn er mwyn merch,
 Ymryson am oreu-serch;
 Pregethwr, a lluniwr llên—
 Per ewybr, pur ei awen;
 Prydydd cerdd ofydd ddifai;
 Prif urddas, mwyn was y Mai;
 Adlais lon o dlos lannerch,
 Odlau, a mesurau serch.

Edn diddan, a gân ar gyll,
Ymwisgiad angel esgyll,
Odid ydoedd i adar
Paradwys cyfrwys, a'i câr,
O dre iawn-gof drugan-gerdd.
Adrodd a ganodd o gerdd.
Adwaen ef, o'i fedw nwyfoed,
Awdwr cerdd adar y coed.



MORFUDD.

Y N dyfod yn deg ddiseml,
 Heb wg, nod amlwg, i'r deml,
 A'r lluoedd arni'n edrych
 Ar lawr disgleirfawr, wawr wych,—
 I myfi daeth ymofeg,
 Ymofyn,—Pwy yw'r dyn deg?

Chwaer yw hon, lon oleur-loer,
 Undad i'r lleuad a'r lloer;
 A nith i des ysblenydd,
 A'i mam oedd wawr ddinam ddydd;
 Ac o Wynedd yr henyw,
 Ac wŷr i haul awyr yw.

Nid gwen un wraig a'r adwaen,
 Nid gwyn calch ar siamber falch faen,
 Nid gwen gwelwdon anghyfuwch,
 Nid gwyn euryn llyn, na lluwch,
 Nid gwyn pryd dilys disglair,
 Wrth bryd gwyn fy myd, myn Mair.
 Cyngwystl a wnawn heb gyngor,
 (Lliw ton geirw pan feirw ar for)
 Nad byw'r Cristion credadyn
 A gai le bai ar liw bun;
 Onid ei bod yn glod-gamp,
 Dyn fach yn loewach na'r lamp.

Na fid rhyfedd gan Gymro
 Alw bun o'r eiliw y bo;
 Poed i'r gyllell hirbell hon
 I gerdded gwaed ei galon
 A'i cymerai yn hyfryd,
 A maddau bun, meddu byd.

RHOSYR.

SAWDDAMAWR, meireinwawr maith
 Tref Niwbwrch trwy iawn obaith !
 A'i glwysdeg deml, a'i glasdyr
 A'i gwin, a'i gwerin, a'i gwyr,
 A'i chwrw, a'i medd, a'i chariad,
 Ai dynion rhwydd, a'i da'n rhad.

Cornel ddiddos yw Rhosyr,
 Coedgae i 'wareu i wyr :
 Llwybrau henwyr, lle breiniawl,
 Llu mawr o bob lle a'i mawl ;
 Lle diofer i glera,
 Lle cywir dyn, lle ceir da ;
 Lle rhwydd beirdd, lle rhydd byrddau,
 Lle im yw, ar y llw mau ;
 Pentwr y glod, rhod rhyddfyw,
 Pentref dan y nef, dawn yw ;
 Paement i borthi pumoes,
 Pell im yw eu pwyll a'u moes ;
 Coety'r wlad rhag ymadaw,
 Cyfnither nef yw'r dref draw ;
 Côt hylwydd, cywir haelion,
 Cyfannedd, mynwent medd Mon ;
 Cystadlydd nef o'r trefi,
 Castell a meddgell i mi ;
 Perllan clod y gwirodydd,
 Pair dadeni pob rhi rhydd ;
 Parch pob cyffredin ddinas,
 Penrhyn gloew feddyglyn glas.

GWALLT MORFUDD.

DOE gwelais ddyn lednais lân,
 Deg o liw, dygwyl Ieuan ;
 Yn ddyn glaerwen ysplenydd,
 Yn lloer deg, unlliw a'r dydd ;
 A'i chlaerwin fin chwerthinog,
 A'i grudd fel rhosyn y grog ;
 Aml o eurlliw, mal iarles,
 Gerllaw y tâl, gorlliw tes ;
 Ac uwch ei deurudd rhuddaur,
 Dwybleth fal y dabl o aur ;
 O datodir, hir yw hwn,
 Yr eiliad aur a welwn ;
 Plethiad ar yr iad wiw rydd
 Ar gydyn eur-egwydydd ;
 Esgyll archangel melyn,
 Aur we gwys ar eira gwyn ;
 Gweled ei gwallt fal gold gwiw,
 Gwiall unllath, goel unlliw ;
 Banadl-lwyn uwch yr wyneb,
 Bronbelau fal siopau Sieb ;
 Gwiw arwydd uwch deurudd dyn,
 Gwiall-didau gold ydyn ;
 Copi clyd gwiw-bryd gobraff ;
 Coed o aur rhudd cyd a rhaff.

Pan ni wŷr beirdd penceirdd-ryw
 Pwy biau'r gwallt pybyr gwiw,—
 Bid arnaf fi yn ddiwg
 Arddel dyn urddol a'i dwg.

CYSTUDD SERCH.

SOEWDEG riain a'm hudai,
 Hael Forfudd, merch fedydd Mai.
 Honno a geiff ei hannerch,
 Heinus wyf heno o'i serch ;
 Hauodd i'm bron, hon a hyllt,
 Had o gariad, hud gorwyllt ;
 Heiniar cur hwn yw'r cerydd,
 Hon ni ad im enwi dydd ;
 Hawdd y gwrendy gyhudded,
 Nawdd arni, ni chaf ei ched ;
 Hudoles a duwies deg,
 Hud yw im hoew ei dameg.

Heddwch gyda'm bun hoew-ddysg,
 Heddyw be'i cawn, dawn y dysg ;
 Herwr glân, heb alanas,
 Heno wyf i'w phlwyf a'i phlas ;
 Hi a roes, er garwloes gwr,
 Hiraeth dan fron ei herwr ;
 Hwyr trig na'r môr ar y traeth,
 Herwr Gwen yn ei hiraeth.
 Hwyr y cawn, dan ei haur coeth,
 Heddwch gan fy mun hoew-ddoeth.

Hualwyd fi, hoeliwyd f' ais,
 Hual gofal a gefais ;
 Hwyr y daw draw'r byd a droes,
 Hwyrach im gaffael hir-oes ;
 Hon o Wynedd a henyw,
 Hebdi ni byddaf fi byw.

Y Wylan.

45

Y WYLAN.

YR wylan deg ar lanw di-oer,
Unlliw a'r araf wen-lloer,
Dilwch yw dy degwch di,
Darn fel haul, dyrnfol heli ;
Ysgafn ar don eigion wyd,
Esgud-falch edn bysgod-fwyd.

A ddygi, yn ddiogan,
Llathr o glod, fy llythyr glân,
At ferch sy i serch yn saeth ?
I'm dwyfron mae gleision glew-saeth.
Yngo'r aet, wrth yr angor,
Lawlaw â mi, lili'r môr.
Llithr unwaith, llathr ei hanwyd,
Lleian ym mrig llanw môr wyd.

Cyweir-glod bun caer glod bell,
Cyrch ystum caer a chastell ;
Edrych a welych, wylan,
Eigr o liw ar y gaer lân ;
Dywed fy ngeiriau dyfun,—
Dewised fi,—dos at fun ;
Boddia hon, baidd ei hannerch,
Bydd fedrus wrth foddus ferch ;
A bydd, dywed, na byddaf,
Fwyn-was caeth, fyw, onis caf.
Ei charu'r wyf gwbl-nwyf nawdd
Och wŷr ! Erioed ni charawdd
Na Myrddin wenieith-fin iach,
Na Thaliesin, ei thlysach.
Och, wylan, o chei weled
Grudd y ddyn lana o gred,
Oni chaf fwynaf annerch
Fy nihenydd fydd y ferch.

GWALLT MORFUDD.

MAE tassel o wallt melyn,
 Brig euraid, am gannaid gwyn ;
 Aur a gaid yn ddwy gadwyn,
 A'i roddi'n faich i'r ddyn fwyn ;
 Caets euraid, fel coed sirian,
 Cyfliw'r melld, cofl o aur mân ;
 Brig gwynwydd yn barc ynial,
 Aur goron am dirion dâl ;
 Dros ei deurudd, i'w chuddiaw,
 Lloweth yn ddwy-bleth a ddaw,
 Aur melyn am ewyn môr,
 Tresi mân tros ei mynwor ;
 Bargod haul goruwch brig ton,
 Lluryg euraid, lliw'r goron ;
 Cannaid ei grudd dan ruddaur,
 Cofl aur wen, cyfliw a'r aur ;
 Dyn araul, lliw'r haul yr ha',
 Ffrwd enwog, a phryd Anna.
 To manaur yw tw' meinwen,
 Teg yw'r gwallt, nid hagr yw Gwen.
 Teg yw ei phen, Ddwynwen ddoeth,
 O bai unawr yn bennoeth ;
 Myned i gribo manwallt
 Meinir wych a manaur wallt ;
 A'i osod mewn ysnoden
 Fel y daeth o foled wen.

Dyged y ddyn wridog-wych
 (Llawen yw gwedd y llwyn gwych)
 Mewn gwisg nefol i'm golwg,—
 F'enaid yw y fun a'i dwg.

CLADDU Y BARDD O GARIAD.

Y FUN loew-lan, fal lili
Yw'r tâl dan we aur, wyt ti.
Mi a'th gerais maith gwiwrym,
Mair deg! oes ymwared i'm?
Da dâl, rhag ofn dy dylwyth,
Dial parch, wyf heb dâl pwyth;
Y mae gennyf mau gynni,
Uchenaid tost o'th chwant ti
O'm lleddi, amhwyll wiwddyn,
Yr em wen hardd, er mwyn hyn
Euog yth wnair, grair y gras;
Ymgel, wen, o'm galanas.

Lle teg glas, matras mainc,
Llan eos, llwynau ieuainc;
A'r gog rhag f' enaid a gân—
Ar irgoed, fel yr organ;
Paderau ac oriau'n gall,
A llaswyrâu, llais arall;
Offerenau, a pher annerch,
A gaf fis haf, gofwy serch.
Aed Duw, i gynnal oed dydd,
I Baradwys a'i brydydd.

Minnau mewn bedd a gleddir,
Ym mysg dail a masw goed îr;
Arwyl o fedw irion
Yfory a gaf dan frig on;
Amdo wenwisg am danaf,
A lliain hoew feillion haf;
Ac ysgrin, i geisio gras,
I'm o'r irddail mawr urddas;
A blodau llwynau yn llen,
Ag elor o wyth gwialen;

Y mae gwyllanod y môr
 A ddon', fil, i ddwyn f' elor ;
 Llu o goed teg, llyg a'i twng,
 Em hoew-bryd, a i'm hebrwng ;
 A'r eglwys im o glos haf
 Yn y fanallt, ddyn fwynaf ;
 A dwy ddelw da i addoli,—
 Dwy eos dail, dewis di.

Ac yno, wrth gae'r gwenith,
 Allorau brics, a llawr brith ;
 A chôr, ni chau'r ddôr yn ddig,—
 O droddail nis medr eiddig,—
 A brodyr a wŷr brydiaith
 Llwydion a wŷr Lladin iaith,
 O ran mydr o ramadeg
 O lyfrau dail, lifrai deg ;
 Ac organ gwych y gweirgae,
 A sain clych mynych y mae ;
 Ag yno ym medw Gwynedd,
 I mi ar bâr y mae'r bedd.



Tawaf tra tawyf tywyn gwmpas—haul,
 Hael Forfudd gyweithas ;
 Ni wyr Duw i'th deuluwas
 Awr draw ond wylaw gwlaw glas.

PERERINDOD MORFUDD.

I FYNWY I GEISIO MADDEUANT AM LADD Y BARDD.

REDDF ffoes gruddiau ffion,
Gadewis fy newis Fon.
Crist Arglwydd, bod rywydd bid trai
Cas, a chymwynas Menai ;
Y Traeth Mawr, golud-fawr glod,
Treia, gad fyned trwod ;
Y Bychan Draeth, gaeth gerynt,
Gad i'm dyn gwyn hyn o hynt ;
Darfu'r gweddiau dirfawr,
Digyffro fo Artro fawr ;
Talwn fferm borth Abermaw,
Ar don drai, er ei dwyn draw ;
Gydne gwin, gad naw gwaneg
Dysynni i dir Dewi deg ;
A dwfn yw tonnau Dyfi,
Dwfr rhyn yn ei herbyn hi ;
Rheidol, gad, er d'anrhydedd,
Heol i fun hael o fedd ;
Ystwyth, ym mhwyth, gad im hon,
Drais, dew-ddyfr, dros dy ddwyfron ;
Aeron ferw, hyson hoew-serch,
Gad trwod fyfyr-glod ferch ;
Teifi, dwfr tyfiad eurwawn,
Gad i'r dyn gadeirio dawn ;
Dirfing drwy'r afon derfyn
Yr êl ac y dêl y dyn.

Mam hirffawd, mae ym mhorffor,
O byw, rhwng Mynyw a môr ;
Maddeued Mair, neddair nawdd,
I'm lleddf wylan a'm lladdawdd.

YMBIL.

'Y MUN gain, hoew em goeth,
 Y cyfan wyd o'm cyfoeth ;
 Gorau meinir a garaf,
 Gwypm yw'th wên fel heulwen haf.
 Gwae o'm planed anedwydd
 Weled erioed liw dy rudd ;
 Dy wyneb, teg ei donnen,
 Wyth-lug dydd, a'th lygaid, wen,
 A fu foeth yn fy ais i,
 A 'ngwanas, gwae fy ngeni.
 Dy wddwg, amlwg emliw,
 Un herddyll wyd, hardd ei lliw,
 A'm troes yn brudd i'm lludd llwyr,
 Was anial, ac o'm synwyr.
 Dy ddwyfron, lliw berw-don balch,
 A'u canfod i'w pryd ceinfalch,
 Mawr ganfod rhyfeddod fu,
 'Mun fadiaen, i'm ynfydu.
 A'th dâl, lliw manod baloedd,
 'Y ngwen wyl, 'y ngwenwyn oedd.

Segr o ddyn, siwgraidd enau,
 Sant fy ffydd, cain Forfudd fau,
 Byroes, a'm serch yn berwi,
 'Y mun, a beraist i mi.
 Na ladd dy fardd, na chwardd chwaith
 Am ei gur, em gyweiriaith ;
 A thyn y gwas a'th annerch
 A golwg hedd o fedd, ferch ;
 Par wared o'm caledi
 Ag un gair, er Mair, i mi.

Y DYWEDDIO.

I FORFUDD PAN YMGREDODD A'R BARDD.

GRED, o Luned oleuni,
 A roes da ei moes i mi ;
 Ys gwae-dwng yw os gwedir,
 Ys gwyn fy myd yw, os gwir ;
 Sel, a Duw a'i hinseiliawdd
 Yn grair, o'i neddair a'i nawdd.

Finnau fy nghred i f'anwyl
 A rois, i'r fun gwiw-lun gwyl,
 Yn llw hydr, mewn lle hydraul,
 Yn ei llaw hi, unlliw haul,
 Fel y rhoed im o rym rhydd
 Yn y dwfr enw Dafydd.
 Gyrddwaew o serch, iawnserch ior,
 Ar garu hoen eira goror ;
 A doniog fu'r grediniaeth,
 Da y gwn, a Duw a'i gwnaeth.
 Da gwnaeth bun, â llun ei llaw,
 Rhoi dyrnaid a rhad arnaw,
 Rheidlw perffeith-deg rhadlawn,
 Rhinwedd y wirionedd iawn ;
 Llw i Dduw o'i llaw ddeau,
 Llyna od, gwn, llw nid gau ;
 Llawendwf yn llaw Indeg,
 Llw da ar hyd ei llaw deg.

Llyfr cariad, myfi a'i cadwaf,
 Yn ben rhaith erbyn yr haf ;
 Yn yr oerddwr yr urddwyd
 Y llw a roes Morfudd llwyd.

TRASERCH Y BARDD.

PRYDYDD i Forfudd, f' eurferch,
 I'm oes wyf, a mawr yw'm serch ;
 Mi a'i cerais, i'm cerydd,
 Hoew-deg loer, ers lawer dydd.

Addoli mun dan ddail Mai,
 A dirfaint cariad erfai ;
 Adwaenwn, gwn yn gynnwl,
 Ei throedlam brisg ymysg mil ;
 Un yw a dyngwn ei nod,
 Wych osgedd, wrth ei chysgod ;
 A'i hadnabod, ddirfod ddadl,
 Hoew eneth, wrth ei hanadl.
 Cerdd eos a'm danghosai
 'Y mun bert, y man y bai,
 Gan hoewed, gloewed, mewn glyn,
 O'i dorri caid 'r aderyn.

Un ydwyf, ban bwyf heb wen,
 Afrywiog, heb fawr awen,
 Ag oernych tost i'm gornwyf,
 O flaen neb aflawen wyf,
 Heb gof, heb ynnof enaid,
 Na rhith o'r synwyr fo rhaid.

Gyda gwen, wy'n ddi-bennyd,
 Gwna hon fi'n galon i gyd,
 A'm cân yn rhedeg i'm cof
 Yn winaid awen ynnof ;
 A synwyr llwyr ar bob llaw,
 Ebrwyddiaith, i'm llwybreiddiauw,
 Ac ni ddaw im awr lawen
 I'm bywyd, mewn byd heb wen.

Y LLEUAD.

DIGIO'R wyf am liw'r ewyn,
 Duw a wŷr feddwl pob dyn.
 Rhy bell yw im ddirprwyaw
 Llatai drud, i'w llety draw ;
 Na dwyn o'm blaen dân-lestri,
 Na physt cŵyr, pan fo hwyr hi.

Canhwyllau'r Gŵr biau'r byd
 A'm hebrwng at em hoew-bryd ;
 Bendith tlawd i'r Creawd-ner
 A wnaeth saerniaeth y ser.
 Ni liwiodd dim oleuach
 Na'r seren gron burwen bach ;
 Canwyll yr uchel Geli,
 Euro maes, sydd orau i mi.
 Ni ddiflan y lân ganwyll,
 A'i dwyn nis gellir o dwyll ;
 Nis diffydd gwynt hynt Hydref
 Afrlladen o nen y nef ;
 Nis bawdd dyfr llyfr llifeiriant,
 Disgwyl-wraig desg1 saig y saint ;
 Ni ddeil lleidr â'i ddwylaw
 Gwaelawd cawg y Drindawd draw ;
 Nid gwiw i ddyn o'i gyfair
 Ymlid maen mererid Mair ;
 Gwir fwyled y goleuni,
 Gwalabr haul, gloew-lwybr yw hi ;
 Goleuad ym mhob ardal,
 Goldyn o aur melyn mâl ;
 Hi a ddengys im, heb gudd,
 Em eurfalch, lle mae Morfudd.

Y CEILIOG BRONFRAITH.

SLE digrif y bum heddyw,
 Dan fentyll y gwyrdd-gyll gwiw,
 Yn gwrando, clau ddechrau dydd,
 Y ceiliog bronfraith celfydd.
 Pellenig heb pall ei ganwyd,
 Pell siwrneiai'r llatai llwyd ;
 Yma y daeth o swydd gaeth Gaer,
 Am ei erchi o'm eur-chwaer.
 A'i wisg oedd, o'i wasg eiddil,
 O flodau mân-gangau mil ;
 A'i gasul, debygesynt,
 O esgyll gwyrdd fentyll gwynt ;
 Nid oedd yna—dyn mawr !
 Ond aur oll yn do i'r allawr.

Morfudd a'i hanfonasai,
 Mydr ganiadaeth mabmaeth Mai ;
 Mi a glown, mewn gloew-iaith,
 Ddadganu nid methu maith,
 Darllen i'r plwyf, nid rhwyf rhus
 Efengyl yn ddifyngus ;
 Codi ar fryn in, yna,
 Afrlladen o ddeilen dda,
 Ac eos gain fain fangaw,
 O gwr y llwyn ger ei llaw
 Cler-wraig nant, i gant a gân,
 Cloch aberth clau y chwiban ;
 A dyrchafel yr aberth,
 Hyd y nen, uwchben y berth ;
 A chywydd i'n Dofydd Dad,
 A charegl nwyf, a chariad,—
 Bodlon wyf i'r ganiadaeth
 Bedw-lwyn o'r coed mwyn a'i maeth.

Serchowgrwydd Morfudd. 55

SERCHOWGRWYDD MORFUDD.

GEFAIS fodd, cofus fydda,
Heddyw yn y glyn ddyn dda ;
Dyn wyl, dda ei dynoliaeth
A'i modd, gwell na neb ei maeth
Am gusan, lliw'r wylan wych ;
Chwaneg ni chawn er chwennyh
Peth nid oeddwn gynefin,
Sypiau mel a sipio min.

Gwanfardd gweddeidd-dwf gwin-faeth
Oeddwn gynt iddi yn gaeth ;
Rhyw gwlm serch, cyd rhy-gelwyf,
Rh'om oedd, gwn, rhwymedig wyf.

Manod-liw ddyn munud-loew,
Morfudd, huan ddeurudd hoew,
A'm daliawdd, be hawdd, bu hy',
Dal-dal yng nghongl y deildy ;
Daliad cwlwm cariad coeth,
Dau arddwrn dyn diweir-ddoeth ;
Da oedd yr haul uwch daear
Dal i'm cylch dwylaw a'm câr ;
Am wddw bardd, bun hardd-lun,
Llai na baich oedd befr-fraich bun ;
Lliw'r calch ar gaer fain falchwyn,
Llyna rodd da ar wddw dyn,
A roes bun, ac un a'i gŵyr,
Am fwnwgl bardd, em feinŵyr.
Diofn, dilwfr, eofn dal,
A du wyf, a diotal,
A deufraich fy myn difrad
I'm cylchwyn, ym medw-lwyn mad.



Y LLWYN BANADL.

Y FUN well ei llun a'i lliw
 Na'r iarllles w'n o'r eurlliw,
 Gwn ddeu-chwedl, gwae na ddichon
 Gael oed dydd, a gweled hon.
 Nid rhydd im anturio i ddwyn
 Liw dydd at leuad addwyn ;
 Duw ni myn, dinam wyneb,
 Dwyn brad nos dan bared neb.
 Nid oedd i ddiwladeidd-was
 Goed i gael oed o fedw glas.

Duw i mi a'm dyn diell
 A roes goed, un eurwisg well ;
 Gwiall cystal y gauaf
 A dail hoew fel adail haf.
 Gwnaf yno, i hudo hon,
 Glôs o fanadl glâs-feinion,
 Modd gwnaeth, saerniaeth serch,
 Myrddin dŷ gwydr am ordderch ;
 Ar Ddyfed yr addefynt
 Y bu len gêl o'r blaen gynt,
 Yr awron, dan yr irwydd,
 Fy llys i felly a fydd.
 O daw bun i dy, y bo
 Iarllles wen i'r llys yno,
 Mae iddi, a mi a'i mawl,
 Oes, baradwys ysbrydawl,—
 Coed wedi eilio pob cainc,
 Cynddail o wiail ieuainc.

Pan ddêl Mai, a'i lifrai las,
 Ar irddail i roi'r urddas,
 Aur a dyf ar edafedd
 Ar y llwyn, er mwyn a'i medd.

Teg yw'r pren, a gwyrenig .
 Y tyf yr aur tew o'i frig ;
 Aur gawod ar y gwiail
 Duw a roes, difai yw'r dail.
 Bid llawen, gwen, bod llwyn gwŷdd
 O baradwys i brydydd ;
 Blodau gorau a garwn,
 Barrug haf ydyw brig hwn.
 Dal y ty, a'i adeilad da,
 Yr wyf o aur Arafia ;
 Pebyll Naf o'r ffufafen,
 Brethyn aur, brith yw ei nen ;
 Angel mwyn yng ngwely Mai,
 O baradwys, a'i brodiai ;
 Gwawn yn aur gwanwyn eres,
 Gloyn nod Duw, gleiniau tes ;
 Gwynfyd mewn gwinllan bryd bron
 Gael euro gwiail irion,
 A'u brig yn goedwig a gaid,
 Fel yn ser fwliwns euraid ;
 Felly caf, fal lliw cyfan,
 Flodau'r Mai fel adar mân.

Gorllwyn y llwyn a'r llannerch,
 Arfer mwyn, yr wyf er merch ;
 Daw f' amod, nid af ymaith
 O'r llwyn fry a'r eurlen fraith ;
 O chaf hyd haf, yn oed dydd,
 Y dyn eurwallt dan irwydd ;
 Deled, lle ni'n didolir,
 Dyn fain dlos dan fanadl ir.

YR YSGYFARNOG

A DDYCHRYNASAI FORFUDD YN Y LLWYN.

§ LUST-HIR lwyd, gâr glas-derw lwyn,
 Gefn-fraith, gyflym-daith, lamdwyn ;
 Gofuniad huaid yw hi,
 Gwlm cydgerdd, gelyn coed-gi,
 Gwrwraig a wnai ar glai glân
 Gyhyr-waew i gi hwyr-wan.
 Gefn-fain, gwta, gegin-fwyd
 Gwn dynghedfen lawdr-wen lwyd ;
 Henwraig ar gefn adain yd,
 Anferth hir-glustiau ynfyd.
 Esgud ei phas ar lasrew
 Ysgwd o'i blaen, esgid blew ;
 Ysgafn fryd, ac yd a gâr,
 Os gad Duw esgud daear.

Hon a wnaeth yn nhraeth y rhyw
 Fawr-gam a m'fi, ofer-gyw,—
 Llunio ei gwâl yn Llwyn y Gog
 Draw, y geinach drogennog,
 Lle daethai dan gangau gwÿdd
 Aur ei munud i'r manwydd.
 Oni bai o'r cae a'r coed
 Neidio o'r fudrog ynfyd-droed ;
 A phan welodd, gwaeddodd gwen,
 Y flewog gyw aflawen ;
 Dychrynodd a luniodd lef,
 Drwy fadrwydd hi droes adref.

A wnaeth draw yr annoeth dro,
 Y ci mawr a'i cymero
 Oddiar ei gwâl, ddioer gelen,
 Heb rybudd er budd o'i ben.

Y PLU PAUN.

GRCHAIS i'm bun, o'm unoed,
 Blethu cainc o blith y coed ;
 Yn gyrn heirdd, yn goron hoew,
 Yn erlant im, yn îr-loew.

“Nid oes ar fedw, nid edwyn,
 O'r dail fae wiw eu dwyn ;
 Ni weuaf finnau wiail,
 Nid gwiw o'r llwyn dwyn y dail.”

Im y rhoes, bid hir-oesawg,
 Y rhodd a gadwaf yrhawg ;
 Gerlant cystal ag eurlen,
 O wisg paun i wasgu pen ;
 Blaen talaith bliant hyloew,
 Blodau hardd o blu da hoew ;
 Glân wead gloewon wiail,
 Gloynau Duw, gleiniau dail.
 Teyrnedd waith, twrn oedd wiw,
 Tyrrau, troellau trilliw ;
 Llugyrn clyr, llogaid gwyr gynt
 Lluniau lleuadau ydynt ;
 Dawn o chair, diau na chyll
 Drychau o ffeiriau fferyll.

Gwn ras hir, gwen a roes hon,
 Gerlant i'w phrydydd geirlon ;
 Hoff loew-gamp oedd ei phlygu,
 A'i phleth o esgyll a phlu ;
 Rhodd serch meinferch i'w mwyn-fardd,
 Rhoes Duw ar hon restri hardd ;
 Bob gwaith, mwyn-waith manaur,
 Bob lliw, fel ar bebyll aur.

YR EOS A'R FRAN.

MAWL Y'R EOS, A DUCHAN Y'R FRAN AM EI GWYLLTIO, PAN
OEDD Y BARD D YN Y LLWYN YN DISGWYL MORFUDD.

GWAE fi o gariad gwiw-fun,
Nad ytwyf yn Nghoed Eytun ;
Lles nifer, ger llys nefawl,
Lle y mae galluau mawl.
Ysgyndwr maen'ar gaen galch,
Ysgynfa eos geinfalch.
Ys gwyr hi, hydr yw'n gormail,
Ysgawn daith dan ysgin dail.
Main y cân prif acen prudd,
Men a threbl mwyn ei thrabludd ;
Egwyddor gain firein-fyw
O gôr dail i gariad yw ;
Cathl wynfyd coeth lawen-ferch
Canghen-ddring cain sawdring serch.
Prid yw ei chof gan ofydd,
Prydyddes, gwehyddes gwÿdd ;
Llon fydd yn nydd ac yn nos,
Llef ddiledlef, dda loew-dlos.

Fal yr oeddwn heb ormail,
Cwpl da, o fewn capel dail,
Yn gwrandaw rhif yn ddifreg
Offeren dan ddeilen deg,
Gan laswyr-wraig y cariad,
Ganiadau mydr-leisiau mad,
Gan eos gain ddiddos gu,
Hab y dolydd heb dalu,
Difir mewn doldir ein dau,
Mewn llwyn-gwyrdd a meillion-gae,
Nycha'r frân anwych ar frig,

Lafar ysgyflgor goflgig,
Yn dwyn rhuthr, dan dinrhythu,
I blas yr edn ceinlas cu.

Daeth y frân o ryw daith fry,
Amharod gerdd o'i 'mharu ;
Glew dri-phwnc, nid gloew drafferth,—
“Glaw! glaw!” meddai'r baw o'r berth.

Llesteiriodd b:if ddigrifwch
Llaes ei phlu a'i lleisiau fflwch ;
Sef gwnaeth, deuluwriaeth dail,
Gan eos fyr ar wiail
Tristhau draw, a distawu,
Gan bres yr Iddewes ddu.
Daeth, ni bu annoeth ynnof,
Duw a'i gŵyr nad a o gof
Dychymyg bonheddig bwyll,
Rhag irdang bum ragor-dwyll ;
Ffull goluddion, heb dôn deg,
Ffollach wegil-grach gulgreg.

“Edn eiddig, wyd anaddwyn,
Adref ! drwg ei llef, o'r llwyn ;
Cerdda at eiddig, dy gâr,
Cyfliw mwsgl, cofl ymysgar ;
Euryches yr oer ochain,
Blowman du a'i blu mewn drain.”

Cefais gan lathr-las asgell,
Loew-swydd wiw, leisiau oedd well.

GOFYN AC ATEB.

Y BARD D YN GOFYN TAL FORFUDD AM HIR GARU ;
HITHAU YN EDLIW EI LYFRDRA.

Y WAWR dlos-ferch ry dlys-fain,
Wrym ael, a wisg aur a main,
Ystyr, eigr, ystôr awgrym,
Is dail îr,—a oes dâl im ?
Ymliw glân o amlwg lais,
Em o bryd, am a brydais
I'th loew-liw, iaith oleu-lawn,
A'th lun gwych, wyth-liw y gwawn ?

“Hir i'th faddeuaf, Dafydd,
Hurtiwyd serch, hort iti sydd
O'th fod, rhyw gydnabod rhus,
Yn rhylwfr, enw rheolus.
Os llwfr ceiliagwydd, was llwyd,
Llwfr, 'sywaeth, odiaeth ydwyd ;
Ni'm caiff innau, diau naf,
Dyn dirym, ond y dewraf.”

Cwfl manwallt, cyfliw man-wawn,
Cam a wnai, ddyn gymen iawn.
Cyd bwyf was cyweithas coeth,
Llwfr yn nhrin, llwfr yn nhrannoeth,
Nid gwas, lle bo gwyrddlas gwŷdd,
Llwfr wyf ar waith llyfr Ofydd.
A hefyd, y ddyn hoew-fain,
Ystyria gu ystori gain,—
Neitio cur, nad da caru
Gwas dewr fyth, gwst oer fu,
Rhag bod, nid cydnabod cain,
Rhyfelwr yn rhy filain.

64 Dafydd ab Gwilym.

Rhinwyllt fydd, a rhy anwar,
Rhyfel ag oerfel a gâr.
O chlyw fod cadorfod tyn,
Brwydr yng ngwlad Ffrainc, neu Brydyn,
Antur gwrdd, hwnt ar gerdded,
Yn wr rhwydd, yno y rhed.
O daw, pei rhon', a dianc
Oddiyno, er ffrwyno Ffranc,
Creithiog fydd, seuthydd a'i sathr,
A chreulon ddyn wych rylathr.
Mwy y car y drym-bar draw
A'i gledd, gwae a goel iddaw,
A mael dur, ac aml darian,
A march o lu, na merch lân.
Ni'th gel pan ddêl poen ddolef,
Ni'th gais eithr i drais o'r dref.


Minnau, a'r geiriau gorhoew,
Pe'th gawn, liw eglur-wawn gloew,
Da gwn, trwsiwn wawd trasyth,
Degle ferch, dy gelu fyth.
Pe rhoen' im gael gafael gaeth,
Deifr un hoen, dwy frenhiniaeth,
Deune'r haul, nid awn er hyn,
Wyth-liw dydd, o'th loew dyddyn.

MAI A IONAWR.

I GANMOL MIS MAI, AC I OGANU IONAWR.

SAWDDAMOR, glwysgor glasgoed,
 Mis Mai haf, canys mae hoed
 Cadair farchog serchog fal
 Cadwyn-wyrdd feistr coed anial;
 Cyfaill cariad ac adar,
 Cof y serchogion a'i câr;
 Cennad naw ugain cynadl,
 Caredig urddedig ddadl;
 Mawr a fydd, myn Mair, ei fod,
 Mis Mai difai, yn dyfod;
 A'i fryd arddel frawd urddas,
 Yn goresgyn pob glyn glas;
 Gwisgiad praff, gwasgod priffyrdd,
 Gwisgai bob lle â'i we wyrdd.

Pan ddêl yn ol rhyfel rhew
 Pill doldir y pall deildew,
 Gleision fydd, Mai grefydd grill,
 Llwybrau obry lle bu'r Ebrill,
 A daw, ar ucha blaen dêr,
 Caniadau cywion adar,
 A chôg ar fan pob rhandir,
 A chethlydd a haf-ddydd hir;
 A bron-loew hoew brynhawn,
 A glaswydd aml eglwyswawn;
 Ac adar aml ar goedydd,
 Ac irddail ar wiail wÿdd;
 A chof am Forfudd, f'eurferch,
 A chyffro saith nawtro serch.
 Anhebyg i'r mis dig du,
 A gerydd i bawb garu,



"A NIWL GWYN YN AEL Y GWYNT."

A bair trist-wlaw, a byr-ddydd,
 A gwynt yn yspeiliaw gwŷdd ;
 A niwl gwyn yn ael y gwynt,
 Yn diffriw canol dyffrynt ;
 Ac awyr dremled led-oer,
 A'i lliw yn gorchuddiaw'r lloer ;
 A'u pair yn llawn o anwyd,
 A'r nant yn llifeiriant llwyd ;
 A dwyn son mewn afonydd,
 A llidiaw a duaw dydd ;
 A llesgedd breuolwedd braw,
 A laes-glog a chenllysg-wlaw—
 Dêl iddaw, rhyw addaw rhwydd,
 Deuddrwg am ei wladeiddrwydd.



EDLIW.

FUN dawel wallt-felen,
 Eurwyd y baich ar dy ben ;
 Gwyn yw dy gorff ac uniawn,
 A lluniaidd ddyn, llyna ddawn ;
 Cyd bych, lanwych oleuni,
 Deg a mwyn, er dig i mi ;
 Gwneuthur brad yn anad neb,
 Em y dynion, mae d' wyneb.
 Duw a lifodd dy lofyn,
 Dy wallt aur, i dwyllo dyn ;
 Dyrchu ael fain, d' orchwyl fu
 Dristhau gwŷr, dros dy garu.

Fy nwyais, ni henwais hyn,
 A guriodd o'th liw gorwyn ;
 Aeth dy wedd, Gwynedd a'i gwŷr,
 A'm hoes innau, a'm synwyr.
 Os dy eiriau ystyriaf,
 Gruddiau gwin, gorwedd a gaf ;
 Gwell bedd, a gorwedd gwirion,
 Na byw'n hir yn y boen hon ;
 Gwae fi, gwn boeni beunydd
 Weled erioed liw dy rudd ;
 Gweniaeth brydferth, a chwerthin,
 Erioed a fu ar dy fin ;
 Un drwg, fel ewyn ar draeth,
 Llai a dâl lliw hudoliaeth ;
 Gelynes mau, afles maith,
 Wyt imi od aet ymaith ;
 Ymaith na ddos o'm hanfodd,
 Byth nid aet ymaith o'm bodd.

CHWEDL Y GOG.

A MI yng ngoror gor-allt,
 Yn aros oed dan goed gallt,
 Y bore Mai ar bawr maes,
 A glanfodd ar lawr glynfaes,
 Ag eginaw teg weunydd,
 A gerllaw'n blaguraw gwŷdd,
 Minnau i'm ton yn son serch
 I Forfudd,—llyna f'eurferch,—
 Bwrw golwg lem ar drem draw,
 Am Wen, a'i mawr ddymunaw,
 Golwg o lwybr bwygilydd,
 A 'mun gain ni chawn mewn gwŷdd,
 Nycha clywn gog liosog-lais,
 Yn geiriaw cân a gerais,
 Gwiw-ddestl, i fardd y gwŷdd-allt,
 Ei llafar ar war yr allt.

“ Dydd da fo i'r gog serchog-lef,
 Aderyn wyd o dir nef,
 Yn dwyn newyddion yn deg,
 A nodau haf, iawn adeg,
 A haf yn hudaw hoew-fun
 I goed, a bardd gyda bun.
 Hoff gennyf dy gân landeg,
 Yn gân i serch fel gwin seg ;
 A thraserch i'th iaith rwysog,
 Yn minio gwawd, fy mwyn gôg.
 Dywed i'th gân heb dewi,
 A mwyn wyd, ple mae 'mun i.”

“ Y prydydd, pa ryw adwyth
 Sydd arnat ti eleni'n lwyth ?
 Ni thâl porthi gofalon,
 Bun iach, ymhellach am hon.

Dafydd ab Gwilym.

Gwra wnaeth gwen gymhen-gall
Gwiriwyd hi'n wraig i arall."

"Taw! Na'm gwator am forwyn
Y llais ni chredaf i'm llwyn;
E'm rhoddes liw tes lw teg,
Ni chawn gan unferch chwaneg,
Llw a chred, myn y bedydd,
I mi dan ganghenau gwŷdd;
A rhwymaw llaw yn y llwyn
Yn ddiddig â'i bardd addwyn,
Myn Mair, a bu'n offeiriad
Madog Benfras, mydrwas mad."

"Ynfyd y'th clywaf, Ddafydd,
Yn awr yn siarad dan wŷdd;
Gwrhaodd ferch a serchud,
Anhirion fu hon i'w hud;
Ni chai Forfudd werydd wen,
Y fun eglur fynygl-wen;
Rhyfyg it garu hoew-fun,
Y Bwa Bach biau bun."

"Am a genaist i'm gwanu,
Yma'n y gwŷdd am wen gu,
Deled it ddyddiau gauaf,
A throi'r haul, a threio'r haf.
A rhew yn dew ar y dail,
A gwyaw coed a gwiail;
A'th ladd gan oerfel i'th llwyn,
Edn ynfyd, a'th dôn anfwyn."

MORFUDD.

YN DDIEITHR O SERCH, AC ANWADAL.

FUN o Eithinfynydd,
 F' enaid teg, ni fyn oed dydd.
 Fain iawn ael, fwynion olwg,
 Fanwallt aur, fy anwyllt wg,
 Fy ngwynfyd rhag trynfyd tranc,
 Fy nuwies addfwyn ieuanc,
 Fy nrych llewyrch mewn lliwaur,
 Fy rhan yw, fy rhian aur.
 Fy swllt dan fwtres ellydd,
 Fy serch ar hon fwy-fwy sydd ;
 Fy nillyn mwynyn manwallt,
 Fy nghrair, ni chair yn ochr allt.

Ni chyrch hon goed y fron fry,
 Ni châr a'i câr, ni chwery ;
 Ni chair Morfudd i chwarae,
 Na chair ! caru Mair y mae,
 A charu saint wych hoew-rym,
 A charu Duw,—ni chred im.

Ni wŷr gwen, un oriog yw,
 Nid edwyn mor od ydyw ;
 Nid adwaeniad odineb,
 Ni fynnai 'nyn fi na neb ;
 Ni fynwn innau, f' anwyl,
 Fyw, oni chawn fun wych wŷl ;
 A'm bun darfu ymboeni,
 Morfudd fwyn, marw fyddaf fi.

Y BWA BACH.

SEF CYNFRIG CYNIN, OEDD YN CYD-GARU MORFUDD A'R BARDD,
PAN OEDD Y GAIR EI BOD AR BRIODI.

BUN wen, lliw llen ar bren-frig,
Lliw eira ar fron, lloer aur frig,
Ai gwir dy fod yn gwra?
Ochenaid tost, Och! nid da.
I minnau'r aeth hiraethfyd,
Os gwir golli'r maes i gyd.

Carl pwdwr, gwell teilwr tom,
Carthgwd trwyn-ffrwd tarian-ffrom;
Twrch bawlyd, tra anhyfryd dyn,
Trawsglerddes'r budr, tresglerddyn;
Ci oer-dwrw ffrom, cor-darw ffrith,
Crinwas baw aelfras bolfrith;
Llawdr gigagl grinfagl groenfaw,
Llwfraidd granc, byr afanc baw;
Rhasgal bach, corn crach y crydd,
Cuchiad còr, crwydrad credrydd.

Gwae fi, y ferch anerchael,
Fod rhai ni'th garai i'th gael;
A bod dyn rheidus uswalt,
Di-wych, i dynnu dy wallt.

Bywyd it, ferch, draserch dro;
Bar Suddas, byroes iddo,
A boed gath-gwd mewn gwden;
A chwithe i minne, Amen.

MORFUDD A'R BWA BACH.

DODES Duw, da o dyst wyf,
Deubleth i hudo deublwyf,
O radau serch, aur ydyn,
Aerwyau teg ar iad dyn;
Eurdyrch a chynnyrch anwyl
O ffrwyth goleu iad lwyth gŵyl;
Llwyth gŵr llowaeth o gariad,
Llathr aur goruwch llethr iad;
Llwyn o gŵyr difeiwyr faeth,
Llwyn eurlliw, llyna iarllaeth;
Llonnaid teg o fewn llinyn,
Llaes dwf, yn liasu dyn;
Llin merch, oreuferch rasawl,
Llwyn aur, mal llinynau'r mawl.
Balch y dwg ddyn ddi-wg fain
Banadl ysgub, bun dlos-gain,
Yn grwn walc, yn goron wiw,
Gwyl-dlos blethedig old-liw.

Caniad rhag Cynfrig Cynin,
Fab y pengrych fawr frych flin;
Llwn anghenfil gwegil-grach,
Llwm yw ei iad lle mae iach;
Eiddig gyw sarrug go sur,
Lledpen chwisigen segur;
Penglog o'r fedrog fudrach
Ni bu ar ben cwch gwenyn bach.
Anhebig, eiddig addef,
Fulwyllt oedd ei foel-wallt ef.

Llariaidd ddi-feth y plethwyd
Y llwyn ar ben Morfudd llwyd.

YMDDIDDAN A BRAWD DU.

A GYNHORASAI'R BARD D I YMWARTHOD A MORFUDD.

YNA cefais druth atcas
 Gan y brawd a'r genau bras,
 Yn ceisio, nid cyswllt rhwydd,
 Fy llygru â'i haerllugrwydd.
 Llyma fal y cynghores
 Y brawd a'r prudd dafawd pres,—

“ Ystyr, pan welych y dyn,
 Ebrwydd yr a yn briddyn ;
 Yn ddilys yr a ei ddelw
 Yn y pridd yn ddielw.”

“ Cyd el y dywarchan ffloch
 Yn bridd hagr, y brawd dugoch,
 Nid a llewyrch cnawd mirain,
 Pryd balch, ond yn lliw'r calch cain.”

“ Dy serch ar y ferch fein-loew,
 Oreu-wallt, a'r hirwallt hoew,
 Hyn a'th bair i'r pair poeth-groen,
 Ac byth ni'th gair o'r pair poen.”

Yna dywedais wrthaw,—
 “ Y brawd du ei bryd, bryf, taw !
 Twrn yw anheilwng i ti
 Tristhau y dyn tros Dewi ;
 Er dy lud a'th anudon,
 A'th eiriau certh, a'th serth son,
 Meff im, o gwrthyd Dafydd,
 O rai teg, ddeg yn un dydd.”

Y BREUDDWYD.

AFLWYDDIANT AM GOLLI MORFUDD, A ROID YN BRIOD I'R
BWA BACH.

A MI neithwyr, hwyr fy hynt,
Mewn eithin rhag min noeth-wynt,
Gorweddais, hunais unawr,
Goris llwyn ar grys y llawr,
Gwelwn rhyw olwg aele,
Gwelw afon, draw gerllaw'r lle,
A'i ffrydiau fel tonnau Taf,
Oernais, yn curo arnaf,
Geirw â grym teirw i'm taraw,
Gyrr o gan-cwm, bum drwm draw.
Syrthiais yn y don serthwyllt,
Swrth gwymp i grych serth a gwyllt ;
Ymdrech â'r don greulon gref,
Ymoerlais, a rhoi mawrlef ;
Ymbil ar Grist, yn drist draw,
Am nwyfiant im i'w nofiaw ;
Llawer a phraff y trafferth,
Lludd y nwyf, yn lladd y nerth ;
Llawer claig yn yr eigion,
Llu'r geirw draw'n briwiaw'm bron.
Gwelwn ddarfod y golau,
A nos hyll arnai'n neshau ;
A'r gwynt yn daer ei gyntwrdd,
A llef gerth gan y llif gwrdd.
Ar fron y don ymdynnwn,
A baich o'r dyfroedd yn bwn ;
Ac o'm hanfodd yn soddi,
Y dydd oer fu'm diwedd i.
Yno'n ol deffro'n ael dydd,
O 'mhoen a gwên f' ymennydd,

76 Dafydd ab Gwilym.

Ystyriais, nodais yn awr
Y freuddwyd im efrwyddawr,
A gwn im gaffael o'i gwedd,
Wr annoeth, y gwirionedd.

Er canu, ac er cwynaw,
A gwanu 'mron gan 'y mraw,
Ni chaf Forfudd, Och! f' eurferch,
Na son wrth y fun fy serch.
Arall sy'n chwennych irwen,
Un cyfoethog, heiniog, hen;
A gwen a'i mynn, henddyn hyll,
Abar dwrch, a bryd erchyll.
Ac anfwyn geraint gwen-ferch
I'm lluddiaw sydd, e'm lladd serch.

Y rhain o'u bron yw'r tonnau,
A'r llif oedd drwm o'r cwm cau;
Llyma'r nofiaw fu draw'n drais,
A'r olwg oer a welais.
Nofiedydd wyf, ynfydwr,
Yn dynn yn erbyn y dŵr;
Rhodio'r wyf ffrwd yr afon,
A dyn a'i daith dan y don;
A llyma'r modd y boddaf,
Fel pai'n ffrydiau tonnau Taf.

YR HEDYDD.

Q RIAU hyder, yr hedydd
 A dry fry o'i dy bob dydd ;
 Boreuwr byd, berw aur bill,
 Parth a'r wybr, porthor Ebrill ;
 Lle rhadlawn, llywiwr odlau,
 Llwybr chweg, llafur teg yw'r tau.
 Llunio cerdd uwchben llwyn cyll,
 Lledneisgamp llwydion esgyll ;
 Bryd y sydd gennyd, swydd gu,
 A brig iaith, i bregethu ;
 Braisg dôn uwch ffynnon y ffydd,
 Breiniau dwfn ger bron Dofydd,
 Fry yr ai, iawngai angerdd,
 Ac fry y ceni bob cerdd.

Fy llwyt-teg edn, fy llatai,
 A'm brawd awdurdawd, od ai,
 Annerch gennyd wiwbryd wedd,
 Loew ei dawn, leuad Wynedd ;
 A chais un o'i chusanau,
 Yma i'w ddwyn im, neu ddau.

Mygr swyn gaer magwyr ser,
 Maith o chwyldaith uchelder ;
 Dogn achub, digon uched
 Y dringiaist, neu'r geisiaist ged ;
 Dysgawdwr mawl rhwng gwawl a gwyll,
 Disgyn, nawdd Duw ar d' esgyll.
 Moled pob mad greadur
 Ei Greawdr, pefr lywiawdr pur ;
 Moli Duw, mal y dywaid
 Mil a'i clyw,—“ Hoff yw na phaid.”

Dafydd ab Gwilym.

Modd awdur serch mau 'dd ydwyd
 Mwyn groew-llais mewn gra llwyd,
 Cathl lân, a diddan yw'r dau
 Gethlydd awenydd winau.
 Cantor o gapel Celi,
 Coel fydd teg, celfydd wyt ti ;
 Cyfor fraint aml cywraint gân,
 Copa llwyd yw'r cap llydan.

Cyfeiria i'r wybr, cyfarwydd
 Cywyddawl dir gwyndir gwŷdd ;
 Dyn uwch ben a'th argenfydd,
 Dioer, pan fo hwya'r dydd ;
 Pan ddelych i addoli,
 Dawn a'th roes, Duw Un a Thri,
 Nid brig pren uwch ben y byd
 A'th gynnal, mae iaith gennyd,
 Ond rhadau y deau Dad,
 A'i fragl am ei fwriad.

Dyfri yr wybr-for dyrys,
 Dos draw, hyd gerllaw ei llys,—
 Gŵr iddi fyfi a fydd,
 Bar Eiddig, un boreuddydd.
 Mae arnad werth cyngherth-ladd,
 Megis na lefys dy ladd ;
 Be 'rhon a'i geisio, berw hy,
 Bw i Eiddig, ond byw fyddi.
 Mawr yw sercel dy berclwyd,
 A bwa llaw mor bell wyd ;
 Trawsdir sathr, trist yw'r seuthydd,
 Trwstan yn fy amcan fydd ;
 Trwch ei lid, tro uwch ei law,
 Tra el ei hobel heibiaw.

Y CYFFYLOG.

EI YRRU AT FORFUDD WEDI EI RHODDI I'R BWA BACH.

DYDD da i'r deryn gwarynlais,
Y cyffyllog lidiog lais,
Tydi hyddyf y tewddwfr,
Taer gyffyllog lidiog lwfr,
Mynag, edn meinwag adain,
Mae dy chwyl, mad wyt, a chain.

“ Ffest a glew y mae'n rhewi,
Ffoi ydd wyf, myn fy ffydd i,
Ar hynt, o'r lle bum yr haf,
Gofid rhag eira gauaf;
Oer a dig yw'r gaua du,
A'i luwch ni'm gad i lechu.”

Dyred, na ddywed ddeuair,
Lle mae a garaf, lliw Mair,
I ochel awel auaf,
O ras hir, i aros haf
Lle gofraisg gerllaw gofron,
Lle clywir teg, lle claer ton.
Edn yn ei hoedl ni edir,
Aderyn hardd durun hir,
O thry i'th ogylch, iaith ddrud,
Treiglwr, chwibianwr traglud,
Bollt benfras, a bwa,
A'th weled wr i'th wâl da;
Na chudd er ei lais, na chau
Dy lygad dan dy loew-gae,
Heda, brysia rhag brad,
A thwyll ef â'th ddull hoew-fad,

80 Dafydd ab Gwilym.

O berth i berth, drafferth drwch,
O lwyn i lwyn anialwch ;
Glân dy dro, o glyn dy droed
Mewn magl ym min mei-goed,
Na fydd aflonydd dy lam
Wrth gryngae'r groglath gringam,
Tyn yn lew oddiam d' ewin,
A'th ddurun cryf, wyth-rawn crin.

Disgyn heddyw yn Rhinwallt,
Is ty gwen, ys teg ei gwallt ;
Mynag, edn o'r mynydd,
Fy mraw caeth, fy mriwiau cudd ;
Gwybydd, er delw Gybi,
Ai cywir meinir i mi ;
Gwyl ei thro, gwylia, a thrig
Yno, aderyn unig ;
Nid llai y cerid ei llun,
A'i glwysfryd ar y glasfryn,
Mwy na phan fu gu ei gwedd
Yn forwyn deg dan fawredd ;
Pair i'm lloer, o pur i'm llas,
Garu ei bardd, gŵr heb urddas.

O'i haros bum yn oeri,
Aeth arall, hoew-gall, a hi ;
Rhy-oer fu awel rhew-wynt,
I'w gwyllo hi, gwaela hynt ;
Gwir a gânt, gwarant gwiwras,
Y rhai gynt, er rhyw gas,
"Pren yng nghoed," mawroed yw'r mau,
"Arall a bwyall biau."

CYNGOR Y BRAWD LLWYD.

DOE ym mherigl y ciglef,
Yng nglyn aur, angel o'r nef,
Wrth ganu araith gynnes,
O'i fin gwell na gwin a ges.
Parod frawd llwyd, ym mhob lle,
O'i gyngor doeth rhag ange,
Disgybl Mair am dysgawdd,
A hyn a ddywaid yn hawdd,—
“Dasydd o beth difeddw bwyll,
Digymar gerdd digymwyll,
Dod ar awen d' aur enau
Nawdd Duw, ac na ddywed au ;
Nid oes o goed tri-oed trwch
Na dail ond anwadalwch,—
Paid a bod gan rianedd,
Cais er Mair cashau'r medd ;
Ymogel draws magl draserch,
A 'mogel mwy magl merch ;
Gochel dafarn, difarn dôn,
A gochel y merched gwychion ;
Ni thâl ffaën gwyrdd gwÿdd,
Na thafarn, na iaith ofydd.
Tri pheth a bair methu
I'r dyn a'u dilyn o'i dy,—
Gwin, merch drwch, a gwychder,
Myn f'enaïd gwiw, afraid gêr.”

Atebais, pan gefais gwr
Ar hyn o eiriau'r henwr,—
“Pa fodd, gwel, y gochela
Magl serch yr ordderch dda,
A minnau, y gŵr mwyniaeth,
Ynddi yn gwaeddi yn gaeth ?

Myn y Gŵr a fedd, heddyw
 Mae gwaew i'm pen am wen wiw,
 Ac i'm tal mae gofal-glwyf,
 Am aur o ddyn marw ydd wyf.
 Ni chaf ochlyd hefyd hawl,
 Gan daered y gŵr durawl,
 Rhaid rhoi draw, o daw, o dâl
 Groesaw i ddeuliw'r grisial;
 Llenwi mewn gwyndy llawen
 Siwgr ar win i ddyn segr wen.
 Os heibio rho, glo y gler,
 Gwas gwech-don, gwisgo gwychder,
 Ni fyn Morfudd, ddeurudd dda,
 Aelod main, weled mo'na'.
 Ni thâl dy gyngor am forwyn
 Garrai i mi, y gŵr mwyn."



CYNGOR BRAWD CREFYDD.

GOSBWR y marwol bechawd,
 Casbeth gennyf bregeth brawd.
 Pobty y bara peinioel,
 Pibl weddi, almari moel;
 Gosgedd gryglus, gweddus gwiw,
 Gwas baglog mewn gwisg bygliw;
 Llwgr o bys y llygod,
 Mair a glyw, nid mawr ei glod.
 I bob dyn, dan ei ateb,
 Y rhydd nawdd mwy na rhodd neb.

Cyngor Brawd Crefydd. 83

Suganai'r brawd i'm gwahardd
Mygr ddiwair, dan air, dyn hardd ;
Doeda'r enfys oedran-foel
Wrthyf fi, yr hen arth foel,—

“ Os bardd ydwyf i feinir,
Ysbys wawd mae'n ysbys wir ;
Iawnach, heb gel, gan delyn
Moli Duw na mawlhau dyn,
Ar rinwedd y saith weddi
Pader teg, myn Pedr, i ti ;
A phaid, er maint mawrfraint Mair,
A'th gywydd, iaith ddigywair.
Bydd yr un rhôl ag Iolo,
Defod hardd, hen fardd y fro,
A wisg y munudiau certh
Dew rawnbais du eirinberth ;
Cais grys o'r maulus muloen,
Oer yw ei grefft ar dy groen ;
Ac yn rhwydd, dros y flwyddyn,
Cynhydda'n gwaith da i ddyn.”

Ffriw dig Sain Dominig fwyn,
Ffwyth mawr unllwyth meirin-llwyn ;
Brân ar led yn ehedeg,
A'i bryd ar nef dangnef deg ;
Tafod cloch bres yn crefu,
Taer y dysg y toryn du.
Y gwas gwâr yn gwarafun,
Cenaw'r fall, canu i'r fun !
Am warafun i'r fun fawl
O'r brawd du oer-bryd dwyfawl,
Ceiliog i'r doniog dangnef,
Calon oer i'r cul o'r nef.

MORFUDD A'R DELYN.

DA dyly Gwen gymhendwyll
 Delyn ariant, tant y twyll;
 Henw it fydd tra fo dydd dyn,
 Hudoles yr hoew delyn;
 Enwog y'th wnair, gair gyrdd-bwyll,
 Armes, telynores twyll.

Y delyn a adeilwyd
 O radd nwyf; aur o ddyn wyd.
 Ei llorf a'm pair yn llwyr farw,
 O hud gwir, ai o hoed garw;
 A'i chwr y sydd, nid gwŷdd gwyllt,
 O ffurf gelfyddyd fferyllt;
 Mae arni nadd o radd rus,
 Ac ysgorth celi, ac esgus;
 Twyll ebillion sy i honno,
 A thruth, a gweniaith, a thro.

Wi! o'r wen-gerdd, wawr win-goeth,
 A fedri di fydr doeth?
 Trech yw, meddir, crefft hir hud,
 Liw gwylan befr, na golud;
 Deulafn o aur a dalant,
 Y dwylaw tau yn dal y tant.

Cymer frad nifer, bryd Nyf,
 Ganwyll gwlad Gamber, gennyf,
 Law-rydd ffawd lariaidd ei pharch,
 Le'r wyl gennyf, liw'r alarch.

Y GWYNT.

YR wybrwynt, helynt hylaw,
 Agwrdd drwst, a gerdda draw;
 Gŵr eres wyd, garw ei sain,
 Drud byd, heb droed, heb adain;
 Eithr a thrwst aruthr y'th rhoed,
 O bantri wybr heb untroed;
 A buaned y rhedi
 Yr awrhon dros y fron fry.

Dywed im, diwyd emyn,
 Dy hynt di, ogledd-wynt glyn.
 Rhad Duw wyd ar hyd daear,
 Rhwad blin doriad blaen dâr.
 Ar hyd y byd yr hedi,
 Hin y fron, bydd heno fry.
 Och wr, dos, odduch aeron
 Yn glaiar, deg, eglur don.
 Cyhyd gwyn wenwyn weini,
 Coeth yw'r wlad a'i maeth i mi.
 Ac erof fi nag eiriach,
 Nag ofna er y Bwa Bach.
 Nithid twyn cyd noethid dail,
 Ni'th hitia neb, ni'th atail
 Na llu rhygl, na llaw rhaglaw,
 Na llafn glas, na llif, na gwlaw;
 Ni boddi, ni rybuddiwyd,
 Nid ei ynglŷn, diongl wyd;
 Ni'th wyl drem noethwal dramawr,
 Ni'th glyw mil, nyth y gwlaw mawr;
 Ni'th ladd mab mam o amhwyll,
 Ni'th lysg tân, ni'th lesga twyll;
 Nid rhaid march buan tanad,
 Neu bont ar aber, na bad.

Noter wybr, natur ebrwydd,
 Neitiwr gwiw dros natur gwŷdd ;
 Hyrddiwr, chwarddwr, breinwr bryn,
 Hwylbren-wynt heli bronwyn ;
 Dryc-hin ym myddin y môr,
 Drythyllfab ar draethell-for ;
 Saethydd ar fron fynydd fry,
 Seithug eisingrug songry ;
 Sych natur, creadur craff,
 Seirniog wybr, siwrnai gobraff ;
 Gwae fi pan roddais fy serch
 Gobrudd ar Forfudd, f' eurferch,
 Rhian a'm gwnaeth yn gaethwlad
 Rhed fry. rhed tua thy ei thad ;
 Cur y ddor, par egori
 Cyn y dydd i'm cennad i ;
 A chais ffordd ati, o chaid
 Achwynna lais ochenaid ;
 Deui o'r sugwae diwael,
 Dywed hyn i'm diwyd hael,—
 Er hyd yn y byd y bwy,
 Creded mai cywir ydwy ;
 Ys prudd yw f' wyneb hebddi,
 Os gwir hyn nas cywir hi.

Dos obry, dewis wybren,
 Dos fry tua gwely Gwen ;
 Dos at seren felenllwyd,
 Debre'n iach, da wybren wyd.

Taith y Bwa Bach. 87

TAITH Y BWA BACH.

YN RHYW SWYDDOG GYDA RHYS WGAN I FFRAINC, A 300 O
WYR GANDDO, TAN EDWARD III., A DYMUNIAD EI FODDI.

MAB Gwgan, mae begegwr
Gyda chwi, O gadwch wŷr,
Yn elyn di-anwlyd
I fardd bun, ac i feirdd byd.
Un llygad, cymyniad cawdd,
Ag un-clust, yw a'r ganclawdd.

Od a a'i enaid, baid banw,
I'r lwyd-long wyllt erlid-lanw,
Llonydd ni hir gydfydd hi,
Llun ei hwyl yn llawn heli ;
Gwisg ei phen fo'r ffrwd wen wawl,
Gwasgwynes y waisg ganawl ;
Ni cherdda, ni hwyliia hi,
Tri-chanddyn a'r trwch ynddi ;
Gwthier ef, gwthr afanc,
Dros y bwrdd ar draws y banc ;
Y don hael, adain heli,
Y tâl a ddylwn i ti ;
Y sawl angeu-fagl y sydd,
Hynny fo ei ddihenydd.

Diddan im ei drigian draw
Deuddeg anhawdd-fyd iddaw.
Cyd-achwyn fi a'r fwyn-ferch,
Iechyd in, a chyd-annerch,
Cyd adde, cyd weddio,
O'i ol fyth na'r dêl y fo.

Adre y don', a aeth o honyn',
Gyda Duw, i gyd ond un.



“ Mab Gwgan, mae begegwr
Gyda chwi, O gad-wych wŷr.”

Tud. 87.

NODDED IFOR.

Y FUN a elwir f' anwyl,
 Seirian wyd, fy seren wyl;
 Tyred i'r llwyn, mwyn yw Mai,
 Dioerder yw'r clyd irdai.
 'Y myd wen, mi yw dy wr,
 A'th was, i'th burlas barlwr;
 Dy wely yw'r llawr deiliog,
 Dy organ fydd cân côg;
 Dy loches cynnes yw'r coed,
 Tegan wyt ti mewn tewgoed
 A'th drws, ail Fenws, feinir,
 Feddal wisg o'r haf-ddail ir.

Ninnau dan rin ym min môr,
 Hoew defyll, yng nghoed Ifor,
 Gwell yma yw'n noddfa ni
 Ar Daf, na goror Dyfi;
 Dilys ni wŷr y dulwyd,
 Oer wên, fan o fyd yr wyd.
 Deuwell yw'n llys blodeuog,
 Ucho 'n y coed, a chân côg,
 Na gwae-dwrf, a hen gadach,
 Yn oer drigfa'r Bwa Bach.

Hawddamor beunydd yma
 A gawn, gyda phob dawn da,
 Llwyn is twyn yn llawn ei stor,
 A lles hefyd llys Ifor.
 Ifor yw trysor traserch,
 A rhyswr, a sawdwr serch;
 A gelyn blin, heb gyfrinach,
 Yw'r gwrda i'r Bwa Bach.

Y Cywydd Diweddaf i Forfudd. 89

Y CYWYDD DIWEDDAF I FORFUDD.

PRYDYDD i Forfudd wyf fi,
Prid ei swydd, prydaïs iddi
Cywyddau twf cu wiw-ddoeth,
Cof hardd am dwf caeth-fardd coeth ;
Ni bu ag hwynt, pwynt ympel,
Un organ mor anirgel,
Mae dy serch, unfam undad,
Dan fy mron yn dwyn fy mrad,
Holl gwmpas, y lleidr-was llwyd,
O'r hyn oll yr enillwyd.

Rhoes iddi bob rhyw swyddau,
Rhugl foliant o'r meddiant mau,
Gwrdd-lef telyn ag orloes,
Gormod rhodd, gŵr meddw a'u rhoes.
Heuais, fal orhoian,
Ei chlod yng Ngwynedd achlân ;
Hydwf y mae yn hedeg,
Had tew, llyna heuad teg.

Pybyr fu pawb ar fy ol,
A'u "Pwy oedd?" ym mhob heol ;
Pater-noster anistaw,
Pawb ar a gânt, llorfdant llaw ;
Ymhob crefydd rhyfedd ri
Yw ei cherdd, yn wych erddi ;
Tafawd o'm twfawd ganmawl,
Teg ei gwên, amen y mawl,—
Cans ar ddiwedd pob gweddi,
Cof cywir, yr henwir hi.

Chwaer ydyw, tywyn-liw tes,
I ferch Wgan, farchoges ;

Un-llais wyf, yn lle safai,
 A'r gôg, morwyn gyflog Mai ;
 Honno ni fedr o'i hanwyd
 Eithr un llais, a'i thoryn llwyd,
 Ni thaw y gog a'i chogor,
 Crygu mae rhwng craig a môr,
 Ni chân gywydd, lonydd lw,
 Nag acen, onid "Gwew !"

Gwys ym Mon mai gwas mynaich
 Fum i, yn ormod fy maich,
 Yr hwn ni wna dda ddeutrew
 Lafur ond un loew-fron dew.
 Dilonydd bwyll, ddidwyll ddadl,
 Dilynais fel dal anadl,
 Defnyddio i'w hurddo hi
 Defnyddiau cerdd ddwfn erddi.

Yn iach bellach, heb allel
 Na chudd am dani, na chel !
 Talm fydd iddi, os tolia,
 Ac o dodir ar dir da ;
 Adyn o'i chariad ydwyf,
 Aed â gwynt, dieuawg wyf.

Pan ddêl gwasgar ar esgyrn,
 Angau, a'i chwarelau chwyrn
 Dirfawr, a hoedl ar derfyn,
 Darfod a wna dafod dyn,—
 Y Drindod, cyn cydfod cwyn
 Mawr ferw, Mab Mair Forwyn,
 A faddeuo 'nghan dramwy ;
 Amen, ac ni chanaf mwy.

YR YSBRYD.

DYW sulgwaith, dewis wylgamp,
 Brynhawn hwyr, loew-lwyr lamp,
 Fel yr oeddwn ar weddfyd
 Mewn eglwys, baradwys bryd,
 Gwiw ddeall, yn gweddiaw,
 Ar Dduw nef, a'i urddau naw,
 Clywn y ddaear yn barawd
 Yn crynu, cyn gwenu gwawd;
 Gofynnais, drud adlais dro
 Byth i ddyn, beth oedd yno.

“ Yn enw Mab yr Aberth,
 A'r Glan Ysbryd, cyngyd certh,
 Beth sydd isod yn godech
 Yn y llawr dan gwr y llech?
 Ai byw, ai marw garw ei gân,
 Ai gŵr, a glywai'n geran?
 Os dyn wyd dianawddal,
 Drwg yw dy wedd, sylwedd sal.

Ysbryd marw, garw gawdd,
 Bryd tybus, a'm hatebawdd.

“ Aros yr wyf mewn oerni,
 Yn ddrwg fy myd mewn cryd cri;
 Afraid it, wr cyflwr cu,
 Anwyfawl, fy nyfalu;
 Bum ieuanc, ddidranc ddedryd,
 A balch ymhob lle'n y byd;
 A hynod yn y glod glau,
 Filwr taith, fel 'rwyd tithau.
 Gwelais im wallt, cwnsallt cu,
 Gwinwyddawl serch gwineu-ddu,

A llygaid cain, burain bas
 Amlwg, a golwg gwiwlas,
 A thafawd mewn iaith ddifai,
 A balchder mewn amser Mai ;
 Gwelais y ceid, gwiw-lwys cain,
 Yr haf gusanu rhiain ;
 A rhodio mewn anrhydedd,
 A gweled merched, a medd.
 O'r diwedd gorfu im dewi,
 Mawr fy most, marw fum i.
 Treuliais fy ngwallt, fel alltud,
 Dan y ddaear fyddar fud ;
 Darfu 'ngnawd, eurwawd oerwas,
 Pregeth wyf i'r plwyf a'r plas ;
 Pregeth oedd piau'r gwaith hwn.
 Pwy a wyddiad pwy oeddwn ?
 Darfu fy nhrwyn, a'm hwyneb,
 Mud iawn wyf, ni'm edwyn neb ;
 Nid oes na llygad na dau ;
 Eithr yn ball, aeth yn byllau ;
 Nag aelgeth, nag un gulgamp ;
 Domlyd, briddlyd, luddlyd lamp ;
 Pan welir ymhlith cerrig
 F' esgyrn yn gegyrn heb gig.
 Taith i ddyn, tithau a ddaw
 I'r ddaear i'th orddwyaw :
 A Duw a ro, diau rhaid
 Yno'th ddwyn, nef i'th enaid ;
 A gâr trugaredd heddyw,
 I farw byd, lydlyd liw.

Marwnad Gruffydd Grug. 93

MARWNAD GRUFFYDD GRYG.

Bu ymryson rhwng Dafydd ab Gwilym a Gruffydd Gryg. Nid oedd yn anghoeth, fel ymryson Dafydd ab Edmwnd a Guto'r Glyn ychydig wedyn, ond yr oedd yn chwerw. Cyn hyn yr oedd Rhys Meigen, meddir, wedi syrthio yn farw gan fin awen angeuol Dafydd. Ebe Gruffydd Gryg,—

“ LLEW ydwyf cryf, llo ydwyt,
Cyw'r eryr wyf, cyw'r iar wyt ;
A dewr ydwyf, a diriaid,
A rhwysg bonheddig yn rhaid ;
A cherdd bêr sydd gennyf,
A Chryg y'm galwant, a chryf ;
Ac ni'm dawr, newyddfawr nwyf,
Byth yn ol beth a wnelwyf ;
A thrawaf, heb ethrowyn,
A min fy nghledd dannedd dyn ;
Medra bwyll, a mydr o ben,
'Mogel ! nid wyf Rys Meigen.”

Dywedodd rhywun wrth Gruffydd fod Dafydd wedi marw, ac yn huno yn Ystrad Fflur. A galarodd Gruffydd yn ddwys am dano, gan ddewis ei ogan ef o flaen mawl ereill. Dywedodd rhywun wrth Dafydd fod Gruffyth Gryg yn huno yn Llan Faes. A chanodd Dafydd iddo fel hyn,—

TRIST oedd ddwyn, trais cynhwynawl,
Tlws o'n mysg, Taliesin mawl ;
Trwst eres, nid trais di-arw,
Trwm oer fel y try y marw.

Treiwyd gwawd, nid rhaid gwadu,
Tros fyd gwlladeiddia trais fu ;
Tros fy ngran ledchwelan lif
Try deigr am wr tra digrif,
Gruffydd, hyawdl ei awdlef,
Gryg ddoeth, myn y Grog oedd ef.

Oes deg am ei ostegion,
 Ys gwir mawl, eos gwyr Mon,
 Lluniwr pob deall uniawn,
 A llyfr cyfraith yr iaith iawn ;
 Egwyddor y rhai gwiw-ddoeth.
 A ffynnon cerdd, a phen coeth ;
 A chyweirgorn ddiorn dda,
 A'i chyweirdant, Och ! wyr-da.
 Pwy a gân ar ei lân lyfr,
 Prydydd goleuddydd liw lyfr ;
 Mêl oedd o'i ben awen-gerdd,
 Primas ac urddas y gerdd.
 Ni chair son gair o gariad,
 Na chân, gan ochain a nad,
 Er pan aeth, alaeth olud,
 Dan ei fedd i dewi 'n fud ;
 Ni chwardd udfardd o adfyd,
 Ni bu ddigrifwch o'r byd ;
 Nid byw edn glân a ganai,
 Nid balch ceiliog mwyalch Mai ;
 Ni chynnydd mewn serch annog,
 Ni chân na hedydd, na chôg,
 Na llinos yn agos inni,
 Nag irddail yn y gerddi,
 Na bronfraith, ddwbl-iaith ddyblyg,
 Ni bydd wedi Gruffydd Grug ;
 Na choedydd, dolydd, na dail,
 Na cherddi,—yn iach ir-ddail !
 Tost o chwedl, gan ddyn edlaes,
 Rhoi yng nghôr llawn fynor Llan Faes
 Gymain,—dioer, gem a'i deurudd,—
 O gerdd ag a roed i gudd.

Pwy gân, i ddyn lân o liw,
 Gywydd dan hoew-wydd heddyw ;

Marwnad Gruffydd Grug. 95

Nag anghlod mwy, nag englyn,
I eiddig, chwerw-ddig ddyn?
Rhoed serchawgrwydd egwyddor
Mewn cist yng ngwaelod côr;
Cist o dderw, cystudd irad,
A gudd gwalch y gerdd falch fad;
O gerdd sain, gywir ddi-sal,
Ni chaid un gistiaid gystal;
O gerdd, euraid gerddwriaeth,
Doe'r ym i gyd yn derm gaeth;
Llywiwr iawn-gamp llarian-gerdd,
Llyna gist yn llawn o gerdd!
Och, hael-grair Fair, uchel Grist,
Na bai a agorai ei gist!

O charai ddyn, wych eirian,
Gan dant glywed moliant glân,
Gweddw y barnaf gerdd dafawd,
Ac weithian gwan ydyw'n gwawd;
E aeth y brydyddiaeth deg
Mal ar wystl, mul yw'r osdeg;
Gwawd graffaf, gwedy Gruffydd
Waeth-waeth, heb Ofyddiaeth fydd.

Edn glwys ei baradwyslef,
Aderyn yw o dir nef;
O'r nef y daeth, goeth gethlydd,
I brydu gwawd i bryd gwŷdd;
Awenfardd awen winfaeth,
I'r Nef, gwiw oedd ef, ydd aeth.

Y DRYCH.

NI thybiais, ddewr-drais ddirdra,
 Na bae teg f' wyneb, a da,
 Oni syniais yn amlwg
 Y drych,—a llyna un drwg.

Im y dywed, o'r diwedd,
 Y drych, nad wyf wych o wedd ;
 Melynu am ail Enid
 Y mae'r grudd, nid mawr y gwrid ;
 Gwydr yw'r grudd, gwedi'r gruddfan,
 A chlais melynlliw achlân.
 Odid na ellid ellyn
 O'r trwyn hir ? Pand truan hyn ?
 Ond diriaid fod llygaid llon
 Yn dyllau terydr deillion,
 A'r ffluwch bengrech ledechwyrth
 Bob dyrnaid o'i said a syrth ?

Lleuad las gron gwmpas graen
 Llawn o hud, llun ehedfaen,
 Bid freuddwyd, byd afrwydda,
 Breuder yw, a brawd i'r ia ;
 Hadlyd liw, hudol o dlws,
 Hudolion a i hadeilws.
 Ffalswr, hudolwr dulas,
 Fflam fo'r drych mingam meingas !

Ni'm gwnaeth neb yn wyneb-grych,
 Os gwiw coeliaw draw i'r drych,
 Ond y ferch fwyn o Wynedd,
 Da y gŵyr ddifwyno gwedd.

I FORFUDD.

Y BARD D MEWN HENAI NT YN DWYN I GOF FEL Y BU GY .

Y FUN alaw-lun liwlwys,
Morfudd, bryd goleuddydd glwys,
Mawr yw fy nghân am danad,
Y ferch a welir yn fad.

A mi neithiwyr, hwyr bu hyn,
Yn d' aros, liwbryd erwyn,
Yn y man lle 'i caid annerch
Rh'om gyntaf fis haf o'n serch,
Syllwn, ac edrychwyn dro,
O'm hamgylch, ac i'm hymgo',—

Cyntaf dan gel pan welais
Dy lun, a chlywed dy lais,
Yr oedd ein llwyn ar ei fwyn fanc,
Yn wiail, ac yn ieuanc ;
Ac uwch ben y fedwen fau
Bregus nid oedd y brigau,
Yn nwyfus, ac yn hafaidd,
A gwryg ieuencyd i'w gwraidd.
Teml oedd îr, ty aml ei ddail,
Tyddyn dan gapan tew-ddail ;
Tŵr gwych capan-grych pengrwn,
A chryf ei gangen, a chrwn ;
Ag adar, a'u dysgeidiaeth,
Acw 'n y ffridd a'u cân ffraeth.
Mwyalchen i'n bedwen bêr
A'n doniai â chân dyner ;
Gwyddost, i'n llwyn mwyn ym Mai
Yn firain e lefarai.
Y nos caid eos i'n dail,
Yn fywus, ag iaith fiwail ;

A ninnau yn iawn annerch
 Ei salm ar gynghanedd serch.

Aethus yw'r henaint weithian,
 Yn dal meth ar y dail mân ;
 A'r cyff crin-frig yn trigaw
 Dan auaf-nych a gwlych gwlaw ;
 Oedran sy'n gadarn arno,
 A dug y llosgwynt ei do ;
 A mwy nid balch mwyalchen,
 Ag eurwe bwnc, ar ei ben ;
 Nag eos ni wna gywydd
 Ar ei bwys, rhy oer y bydd.

Mae cof ynnof o'm hynni,
 A'm serch oedd, wenferch, i ti ;
 A'm cerydd mawr i'm cariad,
 Ac ni'th gawn yn llawn benllad.
 Hir oedio'm serch a'm rhydawdd,
 A byw o hyd ni bu hawdd,
 Dan fy swydd lawer blwyddyn,
 Gorfod bod hebod er hyn ;
 A maith yw'm dolur i'm iad,
 A dunych bron am danad ;
 A heiniais i'm anhunedd,
 I mi ar bâr y mae'r bedd.

Y MABOLAETH.

Y BILAIN o fabolaeth,
 O Dduw, pa dremhynt a ddaeth?
 Bu bwl fy ngado, bu bai,
 Dywaid im na'm gadawai;
 Llwy'r y gwnaeth draeturiaeth dro,
 Fy ngadwyll cyn fy ngado;
 Unwedd a thair o gairos,
 Hyd yr awr, neu hed o ros,
 Ac yn y man diflannu,—
 Hudoliaeth fabolaeth fu.
 Tra chefais, ni fernais fai,
 Dyn loew fryd, dwyn ei lifrai;
 Di-eiddil a da oeddwn,
 A chryf, a gorwyllt, a chrwn;
 Ehad, esgud, ac ysgawn,
 I ben'r allt buan yr awn;
 At y bel, a phob helynt,
 A rhedeg fal gwaneg gwynt;
 Caru morwyn addfwyn-wych,
 Er nas cawn, wron-was gwych,
 Amnaid â'm llygaid yn llon,
 Mor ynial ar y morwynion;
 Neidio a saethu nodyn,
 Nofio'n fad llygad y llyn.

Heddyw os i riw yr af,
 O arferydd, hwyr fyddaf;
 Dirfawr ei son, darfu'r serch,
 A mwynfawr gerdd am wenferch,
 Ni chyfyd ynnof cof cerdd,
 O gyngyd serch ag angerdd.
 Henaint a ddaw, fal hoenyn,
 A'i dwyll i efryddu dyn;

100 Dafydd ab Gwilym.

Nid ery, anwyd oeryn,
Ienctyd yn ei ddylyd ddyn
Onid ennyd, lledfryd llu,
Bychan, cyn ei fwbachu.
Ei draed efryddlawn a drig,
I'w waradwydd, yn wyredig ;
A'i freichiau fel ffustiau ffyn,
A gwaew ymhob giewyn ;
Anaf llesg yn ei wresgyn,
A blew a gwallt yn blu gwyn ;
A'i ddannedd, salwedd son,
Afluniaidd, yn felynion ;
A'i olwg, ddiwg ddeall,
Druan o ddyn, a dry'n ddall ;
A'r tafod, erioed difoes,
A'r en yn treulio, a'r oes.
O synnir ei asennau,
Anisglaer gyfair ei gau,
Prin yw ystod pren wystyn,
Prinnach fydd diwedd dydd dyn.
Pan ddel encil, a chilio,
Y traed ni'm dygant un tro,
Lle bo'r gamfa ferra fach,
Llymsi fyddaf yn llamsach.

O Fair, er hyd ymgywairiwyf,
Ofni o ddifri ydd wyf
Mabolaeth, gelyniaeth gŵr,
O'i said oll y sy dwyllwr ;
Nid oes nen, er a genyw,
ddyn ond trugaredd Duw.

Gyrru'r Haf i Forgannwg. 101

GYRRU'R HAF I FORGANNWG

TYDI yr Haf, tad y rhwys,
A'th goedfrig berth gauadfrwys ;
Tywysog gleiniog y glyn,
Tesog draw'n deffraw dyffryn ;
Praff yw dy frig i'n priffyrdd,
Proffwyd penial gwial gwyrdd ;
Panelog, pwy un eiliw ?
Pwyntiwr dedwydd y gwŷdd gwiw ;
Peraist deganau purion,—
Percwe brwys mewn parc a bron,
Pawr ar lawr y glaslwr glwys,
Per ydyw, ail paradwys.
Rhoddaist flodau a rhyddail,
Rhesau gwych ar deiau dail.
Cawn nodau cywion adar,
Can wanwyn ar dwyn a dâr ;
A gwrandaw'r gerdd fangaw falch,
Ym mywyll, lle cân mwyalch ;
Cawn gennyd y byd o'i ben,
A lluoedd bawb yn llawen.

Clyw fi, Haf. O chaf i'm chwant
Yn gennad ti'n d'ogoniant,
Hed dros of i dir Esvllt,
O berfedd gwlad Wynedd wyllt ;
Gyr onis bo'ch i'm goror,
Anwyla man, yn ael y môr.

F' anerchion yn dirion dwg
Ugeinwaith, i Forgannwg ;
Fy mendith, a llith y lles,
Dau-ganwaith i'r wlad gynnes ;

102 Dafydd ab Gwilym.

Dymgais â'm gwlad o'i hamgylch,
Damred a cherdded ei chylch,—
Gwlad dan gauad yn gywair,
Lle nod gwych, llawn yd a gwair ;
Llynnoedd pysg, gwinllannoedd per,
A maendai lle mae mwynder ;
Arglwyddi yn rhoi gwleddoedd
Haelioni cun heilwin c'oedd.
Ei gwelir fyth, deg lawr fau,
Yn llwynaidd gan berllanau ;
Llawn adar a gâr y gwŷdd,
A dail, a blodau dolydd ;
Coed osglog, caeau disglaer,
Wyth ryw yd, a thri o wair ;
Perlawr purlas, mewn glas glog,
Yn llannaidd, a meillionog.

Yno mae gwychion fonedd,
A dâl im aur, mâl, a medd ;
Ac aml gôr y cerddorion
A ganant â thant, a thôn ;
Ymborth, amred i'r gwledydd
A dardd ohoni bob dydd ;
A'i blith, a'i gwenith, ar goedd,
Yn doraeth i'r pell diroedd ;
Morgannwg, ym mrig ynys,
A byrth bob man, llan a llys.

O'th gaf, yr Haf, i'th awr hardd
A'th geindwf, a'th egin-dardd,
Dy hinon yn dirion dwg,
Aur gennad, i Forgannwg ;
Tesog fore, gwna'r lle'n llon,
Ag annerch y tai gwynion ;

Marwysgafn y Bardd. 103

Rho dwf, rho gynhwf gwanwyn
A chynnull dy wull i dwyn ;
Tywynna'n falch ar galch gaer,
Yn hylawn, yn oleuglaer ;
Dod yno'n dy fro dy frisc,
Yn wyran-bawr, yn irwisg ;
Ysgwyd lwyth o ber ffrwythydd,
Yn rhad gwrs, ar hyd ei gwŷdd ;
Rho'th gnwd, fel ffrwd, ar bob ffrith,
A'r gweunydd, a'r tir gwenith ;
Gwisg berllan, gwinllan, a gardd,
A'th lawnder a'th ffrwythlondardd ;
Gwasgar hyd ei daear deg
Gu nodau dy gain adeg.

Ac yng nghyfnod dy flodau,
A'r miwail frig tewddail tau,
Casglaf y rhos o'r closydd,
Gwull dolau, a gemau gwŷdd ;
Hoew feillion, dillynion llawr,
A glwysbert fflur y glasbawr,—
I'w rhoi'n gof aur-enwog ior,
Ufudd wyf, ar fedd Ifor.

MARWYSGAFN Y BARDD.

UN O ENGLYNION EI GLAF WELY.

OFNI gwrthuni gwrthwyneb—yr wyf
Ofni'r awr i ateb ;
Ofni hir drin ffolineb,
Ofni 'Nuw yn fwy na neb.

Y CYWYDD DIWEDDAF.

GALAR ar ol mabolaeth
 Y sydd, i'm gwanu fel saeth ;
 Gwaefyd yw 'mywyd i mi ;
 Galwaf am nerth ar Geli.

Darfu'r ieuenctyd dirfawr,
 O dewr fu 'nydd, darfu'n awr ;
 Darfu'r pen a'r ymenydd,
 Dial serch im dal y sydd :
 Bwriwyd awen o'm genau,
 Bu hir a chân i'm bywhau ;
 Mae Ifor, a'm cynghorawdd,
 Mae Nest, oedd unwaith i'm nawdd
 Mae dan wÿdd Morfudd fy myd,
 Gorweddant oll mewn gweryd,
 A minnau'n drwm i'm heinioes,
 Dan oer lwyth, yn dwyn hir loes.


Ni chanaf gerdd, na'i chynnyg,
 I goed mwy, na chwÿn na gwÿg :
 Ni ddore, yng ngwÿdd eirian,
 Na chog nag eos â'i chân,
 Na chusan merch a serchais,
 Bun wâr, na'i llafar, na'i llais.

Mae gwaew i'm pen o'm henaint,
 Mwy nid serch harddferch yw'r haint ;
 Aeth cariad a'm llad o'm llaw,
 A gofid yw ei gofiaw.
 Usyn wyf, ac eisieu nerth,
 Ac angau yn ogyngerth ;
 Y bedd sydd imi ar bâr,
 A diwedd oes, a daear,—
 Crist fo'm porth, a'm cynhorthwy,
 Amen, ac nid achos mwy.



Y llwybrau gynt lle
 bu'r gân
 Yw lleoedd y
 Daylluan.
 The path where the main
 road to Card. are now
 the haunts of the Owl

LLE SAFAI LLYS IFOR HAEL.



Mynegai.

GYDAG ESBONIAD AR RAI GEIRIAU.

A

Abar, 76, budreddi
 Abermaw, y Bermo, 49
 Abid, 33, *habit*, gwisg mynach
 Achlân, 38, 89, 96, oll, i gyd
 Addwyn, addfwyn, 37, 57
 Afrlladen, 53, torth gron goch-
 felen
 Aele, 75, trist, trwm
 Aelgeth, aelgerth, 18, 92, *chin*
 Aeron, 49
 Afanc, 87, *beaver*
 Ager, 16, niwl, tarth yn codi o'r
 môr
 Aillt, 24, estron
 Alaw, 97, lili'r dŵr
 Almari, 82, cwpwrdd
 Angerdd, 39, 77, gwres
 Anna, 46, mam Mair
 Annwn, 15, 16
 Anwyd, 45, 89, natur
 Anwydawl, 23, wrth natur
 Arafia, 58, Arabia
 Arian byw, 10, *mercury*
 Arial, 19, nwy, ynni

H

Armes, 84, darogan, arwydd
 Artro, 49

B

Pâl, 50, baich o lin
 Bangaw, 35, 54, 101, rhigl, hyawdl
 Banw, 87, mochyn, glwth
 Bâr, 37, dig, llid
 Begegyr, 87, gwenynen ormes
 Bilain, 99, *villain*
 Bliant, 60, lian main
 Blith, 102, llaethog, cynnyrch
 Blowmon, 34, 62, negro
 Bragod, 19, diod frâg
 Braisg, 77, 79, mawr, trwchus
 Brawd, 34, 48, 74, 75, 81—83. Yr
 oedd gelyniaeth rhwng y glêr
 a'r brodyr llwydion a duon
 (Ffrancisciaid a Dominiciaid).
 Brisg, 52, 103, ol troed
 Bron-belau, 29, 43, tlysau
 Bw, 78, dychryndod
 Bwa Bach, gwel Cynfrig Cynin
 Bwced, 53, *buckler*, tarian
 Bwliwns, 58, *bullions*
 Bwtress, 71, *buttress*, ateg, ochr

C

Cad Gamlan, 29
 Caer, 54
 Caerdyf, 25
 Caets, 46, *cates*, danteithion
 Caer Geri, 27
 Camber, 84, hynafiad tybiedig y
 Cymry
 Canclawdd, 87, *knot-grass*
 Caregl, 54, gwin lestr, gwin
 Carl, 72, *churl*, taeog
 Carlwm, 10, *ermine*, "Cyn wyn-
 ned a'r carlwm."
 Carthen, 15, gwisg pennyd
 Casul, 15, 23, 34, 39, 54, *casula*,
 gwisg
 Cawdd, 39, llid
 Ced, 17, 44, gwobr, eiddo
 Celi, 53, 103, Duw
 Cigagl, 72, aflan
 Ciglef, 81, clywed
 Claig, 75, clegr, craig
 Clêr, 19, 75, 78, beirdd
 Clôs, clâs, 48, 57, *claustrum*,
 llannerch gauedig
 Coed Eytun, 61
 Cogwrn, cegyryn, 92, ffrwyth
 bychan, peth bach
 Cri, 91, garw, "Bara cri"
 Crisiant, 33, grisial
 Cryd, 91, cryndod, dolur
 Cryngae, 80, cae bach ger ty
 Cuchiad, 72, trem sarrug
 Cyfor, 78, llawn
 Cymen, 63, 70, 84, hyawdl
 Cymraeg, 25
 Cymyniad, 87, gorchymyn
 Cynfrig Cynin, 72, 73
 Cyngherth, 78, cydbleth, cyfwerth
 Cyngyd, 91, 99, aros, ymdroi
 Cynired, 28, cymaint
 Cyswynfab, 35, un y gallai ei
 dad ei wadu
 Cybi, 80

Cyd, 55, er
 Cydne, 49, cydliw
 Cwfl, 23, *cowl*
 Cwlm, 39, 55, 59, clwm, cwlwm
 Cwnsallt, 36, 91, gorchudd
 Cwthr, 87, rhan ol

CH

Chwarel, 90, saeth, picell
 Chwyl, 79, treigl, tro
 Chwysigen, 73, *bladder*

D

Dadeni, 42, adnewyddu
 Dâr, 34, derwen
 Darmain, 39, paratoi, bygwth
 Daroedd, 17, bu
 Dawn, 30, rhodd
 Deddyw, 26, daeth
 Deutrew, 90, ffodus
 Debre, 86, gair o gyfarch
 Degle, 64, clyw
 Deifr, 25, 64, Deira, un o ddwy
 frenhiniaeth Gogledd Lloegr
 Delwi, 17, mynd yn wyn ei wyneb
 Deune, 35, 64, deuliw
 Descant, 37, tôn
 Dianawddal, 91, dan nawdd
 eglwys
 Diaraul, 16, di-oleuni
 Diell, 57, tlos, di-hell
 Dien, 13, hyfryd
 Diful, 25, parod, dewr
 Diffriw, 67, cuddio wyneb, di-
 eithrio
 Dillyn, 11, tlws, gemog, gem tlws
 Di-oer, 78, di-os, eglur
 Diorn, 34, di-arswyd
 Dirdra, 96, gorthrwm
 Dirfing, durfing, 49, caled,
 chwerw, prudd
 Dirfod, 52, rhaid fod
 Diwladeiddiaw, 10, digartrefu,
 alltudio

Diwladaidd, 57, yswil
 Dofydd, 11, 77, Duw
 Dôl Aeron, 22
 Dori, 104, dyddori
 Drud, 85, arwr
 Dryll, 19, rhan
 Duryn, 13, pig
 Dwbled, 23, 33, 34, *doublet*
 Dwynwen, 46, santes cariad
 Dyddgu, 19, 201, 22
 Dyfalu, 17, cydmaru, desgrifio
 Dyfed, 57
 Dyfi, 30, 49
 Dyfri, 78, dwfr-arglwydd
 Dyn, gwr neu wraig
 Dyrnfol, 45, llawes, maneg
 Dysynni, 49
 Dyw, 11, dydd

E

Edn, 33, aderyn
 Efryddu, 100, anffurfio
 Ehud, 99, beiddgar
 Ei, ein, yn mhob llawysgrif ceir
y ac yn
 Eiddig, 36, *jealous*
 Eiddun, addawiad, eidduned
 Eigr, 45, 63, merch dlos
 Eisingrug, 10, 86, crug o eisin sil
 Elwch, 31, llawenydd
 Enid, 96, merch dlos
 Erfai, 30, 52, difai
 Erwyr, 35, gwyr, pantiog, crwn
 Esgud, 20, 23, 34, 45, 99, di-ddiogi,
 egniol
 Esvllt, gwlad, 31, 101
 Euryn, 41, llygad euraidd
 Ewybr, 34, 35, buan

F

Fal, fel
 Fau, gwel "mau"
 Fenws, 88, Venus

FF

Fferyll, fferyllt, 60, 84, Virgil,
 celyddydwyr cain
 Ffion, 18, 49, coch, gwridgoch;
 dail ffion = bysedd cochion, *digiti-*
talis.
 Ffloringod, 11, darnau bathol o
 Florence
 Ffluwch, 96, gwallt
 Fflwch, 31, mawr, egniol, gwyllt
 Fflwr-de-lis, 11, elestr, lili, arwydd
 brenhinol Ffrainc
 Ffollach, 62, esgid ledr arw
 Ffrainc, Ffranc, 64
 Ffrengig, 30
 Ffristial, 26, math o chwareu
 Ffriw, 83, wynepryd
 Ffull, 62, brys
 Ffyrff, 25, cadarn, praff

G

Geirw, crych-ddyfroedd ewynog
 Gerlawnt, gerlant, 38, 60, *garland*
 Germain, 14, gwaeddi, swnio,
 bloeddio
 Gerynt, 49, garw-hynt
 Glain, gleiniau, 58, 101, gem
 Gloyn Duw, 57, 60, gloyn byw,
butterfly
 Glud, 15, yn cydio yn eu gilydd
 Godech, 91, ymguddio
 Goddaith, 29, coelcerth
 Gofeg, 27, 30, meddwl
 Gofuniad, 51, peth ddeisyfir
 Gofwy, 47, ymweliad, ymddang-
 hosiad
 Gogyngerth, 28, plethedig, taclus
 Gold, goldyn, goldwir, 53, *gold*
 Goldwir, 29, *gold wire*
 Gordderch, 25, 81, cariad-ferch
 Gorllwyn, 58, dilyn
 Gormail, 61, gormes
 Goryw, 25, gorfu

Gosber, 35, *vesper*
 Gosgeiddig, 23, *graceful*, pryd-
 ferth
 Gra, 77, defnydd gwisg
 Grân, 18, 93, amrant
 Grill, 65, uchel sain
 Gruffydd Grug, 93—95, rhan o'i
 her i D. ab Gwilym, a nodiad
 am yr ymryson rhyngddynt
 Grut, *grit*, manlwch caregog
 Gwaew, 19, picell
 Gwalabr, 53, tywysog
 Gwalc, 73, gwallt
 Gwaneg, 22, ton dan ewyn
 Gwasarn, 16, taenu ar lawr
 Gwawd, 19, 24, 27, 95, mawl
 Gwen, Gwenonwy, 17, 19, 23, 34,
 38, 44, 52, 46, 47, 52
 Gwenyn, 10, tybid mai o'r nef y
 daethant, fel daeth moch o
 Annwn
 Gwerddon, 37, llannerch werdd
 Gwerydd, gwerddyr, 70, y corff
 dynol
 Gwlaw, ysgrifenir *glaw* ym mhob
 llawysgrif. Dengys y newid
 faint dylanwad y Dr. W. O.
 Pughe
 Gwrŷg, 97, cynnydd, crythad
 Gwrysgen, 16, cangen
 Gwull, 103, blodau
 Gwŷg, 104, pys llygod
 Gwymp, 19, 50, tlws, hardd
 Gwynedd, 25, 30, 31, 41, 48, 68,
 89, 101
 Gwynwydd, 21, 33, *honey-suckle*
 Gwyran, 103, glaswelltog
 Gwyrenig, 58, gwvrdd, blodeuog
 Gwys, 43, 90, gwyddis
 Gwystyn, 101, crin
 Gŵn, *gown*
 Gwrdd, 21, 26, 64, agwrdd, 85,
 dewr, hyf
 Gŵst, 63, dolur: "cymalwst,"
 "bronwst."

H

Hab, 61, trigianydd
 Hadlyd, 96, darfodedig
 Henu, 24, addfedu
 Heiniar, 44, heniar, eiddo, twf
 Heiniau 19, heiniog
 Heinus, 44, 76, 98, clwyfedig,
 heintus
 Herddyll, 50, hardd ddull
 Hobel, 78, saeth
 Hoenyn, 99, blewyn
 Hort, 63, cerydd
 Hual, 44, llyffethair
 Hydr, 51, 61, beiddgar, dewr,
 cryf
 Hyddgen, 27, croen hydd

I

Iddew, Iddewes, 38, 62
 Ior, 19, 30, arglwydd
 Indeg, 51, enw merch
 Irdang, 62, syfrdandod
 Ifor, 24—31, 88, 104

L

Lifft, 10, astyllen
 Lifrai, 34, 48, 99
 Luned, 51

LL

Llad, 98, da, rhodd, gras
 Llaswyrâu, 21, 47, psallwyrâu,
 salmau
 Llati, 34, 37, 54, 54, 77, neges-
 euydd
 Llathr, 12, disglacr
 Llawdr, llodrau, 72, trowsus
 Lledchwelan, 93, lledgron, cron,
 troiog
 Lledchwyrth, 96, ffol
 Lleian, 45, *nun*

- Llewych, llewyrch, 33, goleu
 cannaid
 Lliasu, 73, lladd
 Lliwionen, 9, gorchudd
 Llof=llaw
 Llogaid, 60, addurn
 Lloweth, 46, 73, llond llaw, pleth,
 llawn
 Llund, 74, lludw
 Lludd, 50, rhwystrad, lludded
 Lludd, 75, lluddedig
 Llug, 50, goleuni
 Llugyrn, 60, goleuadau
 Llwyd, 19, 21, 73, bendigaid
 Llwyn Esyllt, 20
 Llyg, 48, lleyg, *lay*
 Llymsi, 100, tlawd, diwerth,
 noeth

M

- Mabiaeth, 35, iaith hudol plant
 Mabolaeth, 99, mebyd
 Madiain, 49, tlos ac oer
 Maddau, 41, gadael, gollwng
 Madog Benfras, 70
 Maesaleg, 25, 26, 28, 32
 Mair, 21, 41, 53, 49, 50, 53, 81, 83,
 100
 Mal, fel
 Mâl, 53, 102, darn bathedig, aur
 neu arian
 Mau, 9, 32, 42, 47, 50, 68, 80, 89,
 102, fy
 Maulus muloen, 83, poen-wisg
 Mawrwriaeth, 24, arwriaeth
 Mefl, 74, anaf, amharch
 Meinwyr, 55, *graceful*
 Menai, 49
 Meinwar, 14, o "main" a "gwâr,"
 merch fwyn
 Mererid, 17, 53, perl
 Mign, 42, migin, cors
 Miragl, 78, *miracle*, gwyrrth
 Miwail, 97, 103, esmwyth
 Mon, 25, 49, 90, 94

- Mordaf Hael, 32
 Mordwy, 35, llif
 Morfudd, 41—104
 Morgannwg, 25, 31, 32
 Morlo, 15, llw glo, *sea-coal*
 Muchudd, 19, 23, *jet*
 Mul, 95, distaw, yswil
 Muner, 32, rheolwr
 Mwnai, 11, 27, *money*
 Mwnwgl, 33, gwddf
 Mwrai, 17, 23, 34, *murrey*
 Mygr, 12, 22, 77, 83, tlws, hardd
 Mynwor, 46, coler
 Mynwy, 49
 Mÿr, 17, moroedd
 Myrddin, 45, 57

N

- Neddair, 49, 51, llaw
 Nest, 27, 104
 Neud, 11, 12=fe, mae'n arferol
 Nigys, 27, rhychiog, crychlyd
 Niwbwrch, 42
 Nobl, 18, darn o aur
 Non, 29, mam Dewi Sant
 Nudd, 32
 Nycha, 61, 69, wele
 Nyf, 17, 84, enw merch
 Nyf, 31, eira, nefoedd

O

- Od, 33, eira
 Oed, 11, 15, 34, amser penodedig
 i oedi, cadw amser penodedig
 Ofydd, ofyddiaeth, 21, 39, 61, 63,
 81, 95, Ovid, canu serch
 Ogfaen, 18, grawn yr yspyddad
 Oriau, 47, prydiau gweddi
 Orloes, 89, *horologium*, awrlais
 Osai, 21, defnydd gwisg
 Osgl, osglog, 34, 101, cangen,
 deiliog, canghenog

P

Paement, 9, 42, *payment*
 Pall, 65, gorsedd
 Pân, brethyn wedi ei bannu
 Pand, 16, 20, 25, 96, onid
 Pedrogl, 30, pedair ongl, pedair
 ochr
 Pefr, 55, 77, 84, disglaerwyn
 Peinioel, 82, bara gwenith
 Peiriad, 37
 Pellai, 12, pellaf ai
 Penial, 101, pen, prif
 Pennaig, 37, tywysog
 Penllad, 98, y prif dda, *summum
 bonum*
 Pentus, 35, bargod
 Penwar, *muzzle*
 Peredur ab Etrog, 20
 Pibl, 82, llytr
 Pill, 64, bonyn coeden, brigwydd
 Por, 25, 28, arglwydd
 Praff, 39, tew, mawr
 Pres, 31, buan, brysiog
 Pres, 62, brys, cynnwrf
 Prid, 61, 89, anwyl, gwerthfawr
 Primas, 94, *primus*, prif
 Prydyn, 64, Gogledd Lloegr a de'r
 Alban
 Pwl, 99, di-fin, diamcan
 Pwyntus, 35, iach
 Pwyth, 49, pris, "talur pwyth"
 Pylgain, plygain, 39, boreol, cân
 fore ceiliog

R

Rhad, 33, rhodd, bendith
 Rhagod, 33, dal
 Rhawnt, 38, tyfiant
 Rhi, Rhion, 37, 42, teyrn,
 arglwydd
 Rho, 35, rhyngof a
 Rh'od, 33, rhyngod
 Rhôl, 16, rheol, trefn

Rhufain, 21
 Rhull, 38, mawrfrydig, hael, buan
 Rhugl-groen, 14, croen wedi ei
 sychu, a cherrig ynddo i gadw
 swm i ddychrynu anifeiliaid
 Rhwyf, rhwyfa, 13, mawr-swm,
 gormod
 Rhwysog, 69, awdurdodol
 Rhydderch Hael, 24, 32
 Rheged, 28
 Rhosyr, 42
 Rhyfig, 35, balchder
 Rhyn, 49, rhyndod; neu fynydd
 fel yn "penrhyn"

S

Sain Dominig, 83, sefydlydd urdd
 Buritanaidd y Dominiciaid
 Sain-Siam, 21, Iago Sant.
 Cyrchai lluoedd i Santiago de
 Compostella, yng ngogledd or-
 llewin Spaen, ar bererindod i
 gartref y sant. Dywed y bardd
 Cymreig fod crefydd cariad yn
 well. Dywed ei gydoeswr
 Langlande hefyd,—“Ye that
 seek Saint James shall seek
 Saint Truth.”
 Sawdring, 61, peth i asio, *cement*
 Sabl, 17, *sable*, du
 Selu, 21, edrych, gwylio
 Selyf, 25, 32; gŵr doeth, Solo-
 mon
 Simwr, 10, amwisg
 Sirian, 29, 46, ceirios
 Said, 96, 100, bon, carn
 Sais, 25, 28
 Seg, 69, *sack*, gwin
 Segr, 50, 82, *sacer*, glân
 Seirian, 88, teg
 Seithug, 86, diamcan, ofer
 Sercel, 78, *circle*
 Sibli, 17, Sybil
 Sieb, 29, 43, Cheapside

Sieced, 33, *jacket*
 Swllt, 24, 71, *tâl*
 Suganai, ys ganai, 82, *dywedai*
 Syfaddon, 33
 Syrth o eira, 10, *a fall of snow*

T

Taf, 75, 76
 Tal, 23, 55, 46, 47, *pen*
 Talaith, 60, *pleth*
 Taliesin, 28, 30, 45, 93
 Tampran, 13, *tyrfa swnfawr*
 Tau, 21, 24, 31, 77, 84, *dy*
 Tawlbwrdd, 26, *bwrdd i chware,*
hoff chware y canol oesoedd,
math o chess
 Teifi, 49
 Terwyn, 13, 32, *cryf, hyf*
 Tid, 15, 43, *cadwyn, tres*
 Toli, 90, *lleihau, cybydda*
 Tompyr, 13, *natur, naws*
 Ton, 31, *codiad tir*
 Trafaelu, 27, *llafurio*
 Traeth Bach, 49
 Traeth Mawr, 49
 Traglud, 79, *symudol*
 Traeturaeth, 99, *brad*
 Tresglerddyn, 72, *llafurwr dinod*
 Trinoedd, 13, *gofalon, anghy-*
leusderau
 Trogennog, 59, *lleuog, cynrhon-*
llyd

Trum, 38, *crib mynydd, uchel;*
"tyweirch trum" = tyweirch ar
grib ty to brwyn
 Trwch, 80, 81, *anffodus, anhapus,*
toredig
 Trymbar, 64, *picell drom*
 Tylwyth Teg, 15

U

Ufudd, 26, 103, *gostyngedig,*
gwylaidd
 Unben, 19, *tywysog*

Y

Ydd, *yr*
 Ymofeg, 41, *meddwl*
 Ymwanwr, 34, *ymladdwr*
 Yngod, 32, *siarad*
 Ys, 23, 24, 51, 61, *gair i gadarn-*
hau ymadrodd
 Ys, 37, *er ys, ers*
 Ysgin, 61, *gwe, pais*
 Ysgod, 34, *cysgod*
 Ysgorth, 84, *swn mawr*
 Ysgutyll, 34, *hebog*
 Ysgwd, 59, *naid, symudiad*
 Ysgwl, 34, *aderyn, ysglyfaeth*
 Ystum, 10, 45, *ffurf, lle*
 Ystwyth, Aton, 49
 Yngo, 45, *rhwng*
 Ynial, 99, *anial*
 Ysgablar, 34, *scapular, ysgwydd-*
wisg



